# Datganiadau Ariannol a

# Nodiadau 2021/22

## RHAGAIR

Mae'r cyfrifon hyn wedi cael eu paratoi gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Awdurdod Iechyd Arbennig yng Nghymru o dan atodlen 9, adran 178, Paragraff 3(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p.42) yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru, gyda sêl bendith y Trysorlys.

Mae'r cyfrifon hyn yn rhoi sylw i'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022.

**Cefndir Statudol**
Sefydlwyd AaGIC fel Awdurdod Iechyd Arbennig drwy orchymyn sefydlu 2017 Rhif 913 (Cy. 224), a wnaed ar 11 Medi 2017 ac a ddaeth i rym ar 5 Hydref 2017. Roedd AaGIC yn gweithredu ar ffurf gysgodol tan 1 Hydref 2018, gyda'r holl gostau sefydlu yn cael eu hysgwyddo gan Lywodraeth Cymru, a chyda'r cyrff blaenorol, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP) a gynhelir gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre, a Phrifysgol Caerdydd yn cyflawni'r gwaith gweithredol hyd at 30 Medi 2018. Ar 1 Hydref 2018, cafodd staff eu trosglwyddo i AaGIC a daeth y sefydliad yn gwbl weithredol. Mae gan AaGIC rôl arweiniol o ran addysgu, hyfforddi, datblygu a siapio'r gweithlu gofal iechyd, gan gefnogi gofal o ansawdd uchel i bobl Cymru.

**Rheoli Perfformiad a Chanlyniadau Ariannol**
Rhaid i AaGIC gydymffurfio'n llawn â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Trysorlys i'r graddau y mae'n berthnasol i AaGIC. O ganlyniad, y Prif Ddatganiad o incwm a gwariant yn ystod y flwyddyn yw'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, sy'n dangos cost weithredol net AaGIC a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Ar ôl i'r cyllid hwn ddod i law, mae'n cael ei ddyrannu'n uniongyrchol i'r Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol. Mae gan AaGIC ofyniad blynyddol i sicrhau sefyllfa o gydbwysedd ariannol ar ddiwedd y flwyddyn yn erbyn y terfynau Adnoddau a bennwyd ar gyfer y flwyddyn. Yn Nodyn 2 y datganiadau ariannol, adroddir ar y perfformiad yn erbyn y terfyn adnoddau.

**CYFRIFON BLYNYDDOL AWDURDOD IECHYD ARBENNIG AAGIC (AAGIC AIA/SHA) 2021-22**

## Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

| | | **2021-22** | 2020-21 |
|---|---|---|---|
| | **Ndyn** | **£000** | £000 |
| | | | Wedi'i Ailddatgan |
| Addysg a Hyfforddiant Anfeddygol | 3.1 | **119,889** | 108,234 |
| Addysg Feddygol, Ddeintyddol a Fferyllol Ôl-raddedig | 3.2 | **114,724** | 98,743 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwariant Gweithredu Arall | 3.3 | **33,752** | 28,279 |
| | | **268,365** | 235,256 |
| Llai: Incwm Amrywiol | 4 | **(528)** | (532) |
| **Costau gweithredol net cyn llog ac enillion a cholledion eraill** | | **267,837** | 234,724 |
| Refeniw Buddsoddi | 5 | **0** | 0 |
| (Enillion) / Colledion Eraill | 6 | **0** | 0 |
| Costau cyllid | 7 | **0** | 0 |
| **Costau gweithredol net ar gyfer y cyfnod ariannol** | | | |
| | | **267,837** | 234,724 |

Darllenwch nodyn 2 ar dudalen 22 i gael manylion am y perfformiad yn erbyn y dyraniadau Refeniw a Chyfalaf.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 8 i 63 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

| **Gwariant Net Cynhwysfawr Arall** | **2021-22** | 2020-21 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Enillion / (colled) net wrth ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar | **0** | 0 |
| Enillion / (colled) net wrth ailbrisio asedau anniriaethol | **0** | 0 |
| (Enillion) / colled ar gronfeydd wrth gefn eraill | **0** | 0 |
| Enillion / (colled) net wrth ailbrisio asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu | **0** | 0 |
| Amhariadau a gwrthdroadau | **0** | 0 |
| Gwariant net cynhwysfawr arall ar gyfer y cyfnod | **0** | 0 |
| **Cyfanswm y gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y cyfnod** | **267,837** | 234,724 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 8 i 63 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth2022

| | | 31 Mawrth 2022 | 31 Mawrth 2021 |
|---|---|---|---|
| | Nodiadau | £000 | £000 |
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 11 | **1,940** | 2,179 |
| Asedau anniriaethol | 12 | **0** | 0 |
| Symiau masnach derbyniadwy a symiau | | | |
| derbyniadwy eraill | 15 | **0** | 0 |
| Asedau ariannol eraill | 16 | **0** | 0 |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | **1,940** | 2,179 |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Rhestrau eiddo | 14 | **0** | 0 |
| Symiau masnach derbyniadwy a symiau | | | |
| derbyniadwy eraill | 15 | **2,125** | 1,765 |
| Asedau ariannol eraill | 16 | **0** | 0 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 17 | **5,955** | 6,148 |
| | | **8,080** | 7,913 |
| Asedau anghyfredol sy'n cael eu hystyried yn rhai | | **0** | 0 |
| "I'w Gwerthu" | 11 | **8,080** | 7,913 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **10,020** | 10,092 |
| **Cyfanswm asedau** | | **(8,418)** | (7,668) |
| | | **(338)** | 245 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | 18 | **(8,418)** | (7,661) |
| Rhwymedigaethau ariannol eraill | 19 | **0** | 0 |
| Darpariaethau | 20 | **0** | (7) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| **Asedau / (rhwymedigaethau) cyfredol net)** | | | |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol** | | | |
| Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | 18 | **(125)** | (148) |
| Rhwymedigaethau ariannol eraill | 19 | **0** | 0 |
| Darpariaethau | 20 | **0** | 0 |

| | | |
|---|---|---|
| | **(125)** | (148) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | **1,477** | 2,276 |
| **Cyfanswm yr asedau a ddefnyddiwyd** | | |
| **Ariannwyd gan:** | | |
| **Ecwiti trethdalwyr** | | |
| Y Gronfa Gyffredinol | **1,477** | 2,276 |
| Cronfa ailbrisio wrth gefn | **0** | 0 |
| **Cyfanswm ecwiti trethdalwyr** | | |
| Cafodd y datganiadau ariannol ar dudalennau 2 i 7 eu cymeradwyo gan y Bwrdd ar xx.xxx.2022. | **1,477** | 2,276 |

Y Prif Weithredwr a'r Swyddog Atebol,

Dyddiad: 13/06/2022

Mae'r nodiadau ar dudalennau 8 i 63 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

CYFRIFON BLYNYDDOL AWDURDOD IECHYD ARBENNIG AAGIC (AAGIC AIA/SHA) 2021-22

## Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben

## ar 31 Mawrth2022

| Ailbrisio | | Y Gronfa Cyfanswm Gyffredinol Cronfeydd Wrth Gefn £000 £000 | Cronfa wrth Gefn £000 | |
|---|---|---|---|---|
| **Newidiadau mewn ecwiti trethdalwyr** | | | | |
| **Balans ar 1 Ebrill 2021** | | 2,276<br>**2,276** | 0 | |
| Cost weithredol net ar gyfer y cyfnod | | (267,837)<br>**(267,837)** | | |
| Enillion / (colled) net wrth ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar | | 0<br>**0** | 0 | |
| Enillion / (colled) net wrth ailbrisio asedau anniriaethol | | 0<br>**0** | 0 | |
| Enillion / (colled) net wrth ailbrisio asedau ariannol | | 0<br>**0** | 0 | |
| Enillion / (colled) net wrth ailbrisio asedau i'w gwerthu | | 0<br>**0** | 0 | |
| Amhariadau a gwrthdroadau | | 0<br>**0** | 0 | |
| Gwahaniaeth arall yn y cronfeydd wrth gefn | | 0<br>**0** | 0 | |
| Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn | | 0<br>**0** | 0 | |
| Rhyddhau cronfeydd wrth gefn i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr | | 0<br>**0** | 0 | |
| Trosglwyddiadau i/o (rhowch fanylion) | | 0<br>**0** | 0 | |
| **Cyfanswm y costau a'r incwm cydnabyddedig ar gyfer y cyfnod** | 0 | (267,837)<br>265,015<br>2,023<br>1,477 | 0 | **(267,837)**<br>**265,015**<br>**2,023**<br>**1,477** |
| Cyllid net gan Lywodraeth Cymru | | | | |

Cyllid tybiannol gan Lywodraeth Cymru **Balans ar 31 Mawrth 2022**

Mae'r nodiadau ar dudalennau 8 i 63 yn rhan o'r cyfrifon hyn

## Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020

| | Y Gronfa Gyffredinol £000 | Cronfa Ailbrisio wrth Gefn £000 | Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn £000 |
|---|---|---|---|
| **Newidiadau mewn ecwiti trethdalwyr** | 3,676 | | **3,676** |
| **Balans i Ebrill 1 2020** | (234,724) | 0 | **(234,724)** |
| Cost weithredol net ar gyfer y cyfnod | | | |
| Enillion / (colled) net wrth ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar | 0 | 0 | **0** |
| Enillion / (colled) net wrth ailbrisio asedau anniriaethol | 0 | 0 | **0** |
| Enillion / (colled) net wrth ailbrisio asedau ariannol | 0 | 0 | **0** |
| Enillion / (colled) net wrth ailbrisio asedau i'w gwerthu | 0 | 0 | **0** |
| Amhariadau a gwrthdroadau | 0 | 0 | **0** |
| Gwahaniaeth arall yn y cronfeydd wrth gefn | 0 | 0 | **0** |
| Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn | 0 | 0 | **0** |
| **Rhyddhau cronfeydd wrth gefn i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr** | 0 | 0 | **0** |
| Trosglwyddiadau i/o BILl | (234,724) | 0 | **(234,724)** |
| **Cyfanswm y costau a'r incwm** | 231,777 | | **231,777** |
| **cydnabyddedig ar** | 1,547 | | **1,547** |
| **gyfer y cyfnod** | 2,276 | 0 | **2,276** |

0

Cyllid net gan Lywodraeth Cymru

Cyllid tybiannol gan Lywodraeth Cymru
**Balans ar 31 Mawrth 2021**

Mae'r nodiadau ar dudalennau 8 i 63 yn rhan o'r cyfrifon hyn



## Datganiad Llifoedd Arian Parod ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

| | nodiadau | 2021-22<br>£000 | 2020-21<br>£000 |
|---|---|---|---|
| **Llifoedd Arian Parod o weithgareddau gweithredol** | | | |
| Cost weithredol net ar gyfer y cyfnod ariannol | | **(267,837)** | (234,724) |
| Gwahaniaethau yn y Cyfalaf Gweithio | 27 | **374** | (210) |
| Addasiadau eraill i'r llif arian parod | 28 | **2,542** | 1,924 |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd | 20 | **(7)** | 0 |
| | | **(280)** | (84) |
| | | **(265,208)** | (233,094) |
| **Llif arian parod net allan o weithgareddau gweithredol** | | **(264,928)** | (233,010) |
| **Llifoedd Arian Parod o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, offer a chyfarpar | | **(280)** | (84) |
| Enillion wrth waredu eiddo, offer a chyfarpar | | **0** | 0 |
| Prynu asedau anniriaethol | | **0** | 0 |
| Enillion wrth waredu asedau anniriaethol | | **0** | 0 |
| Taliad ar gyfer asedau ariannol eraill | | **0** | 0 |
| Enillion wrth waredu asedau ariannol eraill | | **0** | 0 |
| Taliad ar gyfer asedau eraill | | **0** | 0 |
| Enillion wrth waredu asedau eraill | | **0** | 0 |
| **Llif arian parod net i mewn/(allan) o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| **Llif arian parod net i mewn/(allan) cyn ariannu** | | | |
| **Llifoedd Arian Parod o weithgareddau ariannu** | | | |

| | | |
|---|---|---|
| Cyllid gan Lywodraeth Cymru (gan gynnwys cyfalaf) | **265,015** | 231,777 |
| Derbyniadau cyfalaf wedi'u hildio | **0** | 0 |
| Grantiau cyfalaf wedi'u derbyn | **0** | 0 |
| Elfen gyfalaf taliadau mewn perthynas â lesoedd cyllid ac ar y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol | **0** | 0 |
| Arian parod a drosglwyddwyd (i)/ o gyrff eraill y GIG | **0** | 0 |
| **Cyllid net** | **265,015** | 231,777 |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod** | **(193)** | (1,317) |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod (a gorddrafftiau banc) ar 1 Ebrill 2020** | **6,148** | |
| | **5,955** | 6,148 |

**Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod (a gorddrafftiau banc) ar 31 Mawrth 2021**

Mae'r nodiadau ar dudalennau 8 i 63 yn rhan o'r cyfrifon hyn

## Nodiadau i'r Cyfrifon

### 1. Polisïau cyfrifyddu

Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi dweud ei bod yn rhaid i ddatganiadau ariannol Awdurdodau Iechyd Arbennig yng Nghymru fodloni gofynion cyfrifyddu Llawlyfr Cyfrifon GIG Cymru. O ganlyniad, mae'r datganiadau ariannol canlynol wedi cael eu paratoi yn unol â Llawlyfr Cyfrifon 2020-21. Mae'r polisïau cyfrifyddu yn y llawlyfr hwnnw'n dilyn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol 2020-21, yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol sy'n cydymffurfio â gofynion Deddf Cwmnïau 2006, ac eithrio IFRS 16 Lesoedd, a ohiriwyd tan 1 Ebrill 2022; i'r graddau eu bod yn arwyddocaol ac yn briodol i'r GIG yng Nghymru. Pan fydd y Llawlyfr Cyfrifon yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu sy'n cael ei ystyried fel yr un mwyaf priodol i amgylchiadau penodol yr Awdurdod Iechyd Arbennig er mwyn rhoi darlun cywir a theg. Mae'r polisïau penodol sydd wedi cael eu mabwysiadu gan yr Awdurdod Iechyd Arbennig yn cael eu disgrifio isod. Maen nhw wedi cael eu defnyddio mewn ffordd gyson wrth ddelio ag eitemau sy'n cael eu hystyried yn rhai o bwys mewn perthynas â'r cyfrifon.

### 1.1 Confensiwn cyfrifyddu

Mae'r cyfrifon hyn wedi cael eu paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol a addaswyd i roi cyfrif am ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar, asedau anniriaethol a rhestrau eiddo..

### 1.2 Caffaeliadau a gweithrediadau sydd wedi dod i ben

I weithgareddau gael eu hystyried fel rhai sydd wedi cael eu 'caffael', rhaid iddynt fod wedi dod o'r tu allan i'r sector cyhoeddus. I weithgareddau gael eu hystyried fel rhai sydd 'wedi dod i ben', rhaid iddynt fod wedi stopio'n llwyr. Os yw gweithgareddau'n cael eu trosglwyddo o un corff i gorff arall yn y sector cyhoeddus, nid ydynt yn cael eu hystyried fel rhai sydd 'wedi dod i ben'.

### 1.3 Incwm a chyllid

Prif ffynhonnell gyllid yr Awdurdod Iechyd Arbennig yw dyraniadau (cyllid Llywodraeth Cymru) gan Lywodraeth Cymru o fewn terfyn arian parod sydd wedi cael ei gymeradwyo,

ac sy'n cael ei gredydu i Gronfa Gyffredinol yr Awdurdod Iechyd Arbennig. Mae cyllid gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gydnabod yn y cyfnod ariannol pan dderbyniwyd yr arian parod.

Mae cyllid annewisol y tu allan i'r Terfyn Adnoddau Refeniw yn cael ei ddyrannu i gyfateb i'r gwariant gwirioneddol sydd wedi codi wrth ddarparu gwasanaethau fferyllol neu offthalmig penodol a nodwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae gwariant annewisol yn cael ei ddatgelu yn y cyfrifon a'i dynnu o'r costau gweithredol sy'n cael eu priodoli i'r Terfyn Adnoddau Refeniw.

Mae cyllid ar gyfer caffael asedau sefydlog a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gredydu i'r Gronfa Gyffredinol.

Ystyr incwm amrywiol yw incwm sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu'r Awdurdod Iechyd Arbennig, ac nid yw'n cael ei ariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Mae'n cynnwys talu am wasanaethau sy'n cael eu darparu'n unigryw gan yr Awdurdod Iechyd Arbennig ar gyfer Llywodraeth Cymru. Mae incwm gan Fyrddau Iechyd Lleol sy'n delio â'r Awdurdod Iechyd Arbennig bob amser yn cael ei drin fel incwm amrywiol.

Ers 2018-19 mae'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol wedi bod yn defnyddio safon IFRS 15 Refeniw o Gontractau gyda Chwsmeriaid, fel y mae wedi cael ei dehongli a'i haddasu ar gyfer y sector cyhoeddus. Mae'n disodli safonau blaenorol IAS 11 Contractau Adeiladu ac IAS 18 Refeniw a dehongliadau IFRIC a SIC cysylltiedig. Mae'r diwygiadau posib a nodwyd o ganlyniad i fabwysiadu IFRS 15 ymhell o fod yn rhai o bwys.

Rhoddir cyfrif am incwm drwy ddefnyddio'r confensiwn croniadau Mae incwm yn cael ei gydnabod yn y cyfnod pan fydd y gwasanaethau'n cael eu darparu. Os cafwyd incwm gan drydydd parti ar gyfer cyflawni gweithgaredd penodol yn y flwyddyn ariannol ddilynol, bydd yr incwm hwnnw'n cael ei ohirio.

Dim ond incwm nad yw'n ymwneud â'r GIG y gellir ei ohirio..

### 1.4. Buddion i weithwyr

#### 1.4.1. Buddion tymor byr i weithwyr

Mae cyflogau a thaliadau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth yn cael eu cydnabod yn y cyfnod y derbynnir y gwasanaeth gal y gweithwyr. Mae cost gwyliau y mae gan weithwyr hawl iddynt ond nad ydynt wedi'u defnyddio erbyn diwedd y cyfnod yn cael ei gydnabod yn y datganiadau ariannol, i'r graddau y caniateir i weithwyr gario gwyliau ymlaen i'r cyfnod nesaf.

#### 1.4.2. Costau buddion ymddeol

Mae darpariaethau Cynllun Pensiynau'r GIG yn berthnasol i weithwyr presennol a blaenorol. Mae'n gynllun buddion wedi'u diffinio nad yw'n cael ei ariannu. Mae'n cynnwys cyflogwyr y GIG, Practisiau Cyffredinol a chyrff eraill, a ganiateir o dan gyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol, yng Nghymru ac yn Lloegr. Nid yw'r cynllun wedi'i gynllunio i gael ei redeg mewn ffordd a fyddai'n galluogi cyrff y GIG i ganfod eu cyfran nhw o asedau a rhwymedigaethau'r cynllun. Felly, rhoddir cyfrif am y cynllun fel pe bai'n gynllun cyfraniadau wedi'u diffinio: tybir bod y gost i'r corff GIG gymryd rhan yn y cynllun yr un faint â'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu.

Roedd canlyniadau prisiad diweddaraf Cynllun Pensiwn y GIG yn dangos bod cynnydd o ran buddion yn gofyn am gynnydd o 6.3% (14.38% i 20.68%), a gafodd ei roi ar waith o 1 Ebrill 2019 ymlaen.

Fel sefydliad sydd o fewn y cwmpas ariannu llawn, roedd y trefniant pontio ar y cyd (yn GIG Cymru ac yn GIG Lloegr) wedi cael ei roi ar waith o 2019-20 ymlaen, lle byddai cyflogwyr yn y Cynllun yn parhau i dalu cyfraniadau cyflogwr o 14.38% o dan eu proses dalu fisol arferol. Yng Nghymru, mae'r 6.3% ychwanegol yn cael ei dalu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru i weinyddwr y Cynllun Pensiwn, sef Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (BSA, Asiantaeth Pensiynau'r GIG).

Fodd bynnag, mae'n rhaid i sefydliadau GIG Cymru roi cyfrif am gyfraniadau cyflogwr ar gyfer staff GIG Cymru, sef 20.68%, yn llawn ac ar sail gros yn eu cyfrifon blynyddol. Rhoddir cyfrif ar sail dybiannol am daliadau a wneir ar eu rhan gan Lywodraeth Cymru. I gael gwybodaeth fanwl, darllenwch Nodyn 34.1 yn y cyfrifon hyn.

Yn achos ymddeoliadau cynnar, ar wahân i'r rheini sy'n digwydd oherwydd salwch, nid yw'r rhwymedigaethau pensiwn ychwanegol yn cael eu hariannu gan y cynllun. Mae swm llawn y rhwymedigaeth ar gyfer y costau ychwanegol yn cael ei briodoli i wariant ar yr adeg y mae'r sefydliad sy'n rhan o GIG Cymru yn ymrwymo i'r ymddeoliad, ni waeth beth yw'r dull talu.

Os yw gweithwyr yn aelodau o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, sy'n gynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio, mae hynny'n cael ei ddatgelu. Mae asedau a rhwymedigaethau'r cynllun sydd i'w priodoli i'r gweithwyr hynny yn gallu cael eu nodi, ac maen nhw'n cael eu cydnabod yng nghyfrifon y sefydliad. Mae'r asedau'n cael eu mesur ar sail gwerth teg, a'r rhwymedigaethau ar sail gwerth presennol y rhwymedigaethau yn y dyfodol. Mae'r cynnydd yn y rhwymedigaeth sy'n deillio o wasanaeth pensiynadwy a sicrhawyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei gydnabod o dan dreuliau gweithredu. Mae'r enillion a ddisgwylir o asedau'r cynllun yn ystod y flwyddyn yn cael eu cydnabod o dan incwm cyllid. Mae'r costau llog yn ystod y flwyddyn, sy'n deillio o ddad-ddirwyn y disgownt ar rwymedigaethau'r cynllun, yn cael eu cydnabod o dan gostau cyllid.

### 1.4.3. Cynllun Pensiwn NEST

Rhaid cynnig cynllun pensiwn arall i weithwyr nad ydynt yn gymwys i ymuno â chynllun Pensiynau'r GIG. Mae Cynllun Pensiwn NEST (yr Ymddiriedolaeth Cynilion Cyflogaeth Cenedlaethol) yn gynllun cyfraniadau wedi'u diffinio. Felly, mae'r gost i'r corff GIG gymryd rhan yn y cynllun yr un faint â'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu.

## 1.5. Treuliau eraill

Bydd treuliau gweithredu eraill ar gyfer nwyddau neu wasanaethau yn cael eu cydnabod pan fyddan nhw wedi'u derbyn, ac i'r graddau y maen nhw wedi'u derbyn. Maen nhw'n cael eu mesur ar sail gwerth teg y gydnabyddiaeth sy'n daladwy..

## 1.6. Eiddo, offer a chyfarpar

### 1.6.1. Cydnabyddiaeth

- Mae eiddo, offer a chyfarpar yn cael ei gyfalafu:
- os yw'n cael ei ddal i'w ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau neu at ddibenion gweinyddol
- os yw'n debygol y daw buddion economaidd, neu botensial gwasanaeth, i'r sefydliad yn y dyfodol
- os disgwylir iddo gael ei ddefnyddio am fwy nag un flwyddyn ariannol
- os oes modd mesur cost yr eitem yn ddibynadwy; ac

● os yw'r eitem yn costio o leiaf £5,000; neu

o os yw nifer o eitemau, gyda'i gilydd, yn costio o leiaf £5,000 ac yn costio mwy na £250 yn unigol, pan fydd yr asedau'n dibynnu ar ei gilydd, pan oeddent wedi cael eu prynu ar yr un pryd yn fras a phan ddisgwylir iddynt gael eu gwaredu ar yr un pryd, a phan fyddant o dan reolaeth un rheolwr; neu 106 Adroddiad blynyddol AaGIC 2020/21

* os yw'r eitemau'n rhan o'r costau paratoi a sefydlu cychwynnol ar gyfer adeilad, ward neu uned newydd, ni waeth beth yw eu cost unigol na'r gost gyda'i gilydd.

Pan fydd ased mawr, er enghraifft adeilad, yn cynnwys nifer o elfennau y mae eu hoes fel ased yn wahanol iawn, mae'r elfennau'n cael eu trin fel asedau ar wahân a'u dibrisio dros eu hoes economaidd ddefnyddiol eu hunain.

### 1.6.2. Prisio

Mae'r holl eiddo, offer a chyfarpar yn cael eu mesur ar sail y gost i gychwyn, gan gynrychioli'r gost sydd i'w phriodoli'n uniongyrchol i gaffael neu adeiladu'r ased, a dod â'r ased i'r lleoliad a sicrhau ei fod yn y cyflwr angenrheidiol er mwyn iddo allu gweithredu yn unol â bwriad y rheolwyr. Mae'r tir a'r adeiladau a ddefnyddir ar gyfer gwasanaethau neu at ddibenion gweinyddol yn cael eu nodi yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar ffurf eu hailbrisiadau, sef y gwerth teg ar ddyddiad yr ailbrisiad, llai unrhyw ddibrisiant cronedig a cholledion amhariad yn dilyn hynny. Cynhelir ailbrisiadau'n ddigon rheolaidd i sicrhau nad yw symiau dwyn ymlaen yn wahanol iawn i'r rheini a fyddai'n cael eu pennu ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Mae gwerthoedd teg yn cael eu pennu fel hyn:

Ô Tir ac adeiladau nad ydynt yn arbenigol - gwerth Marchnadol ar gyfer eu defnydd presennol

Ô Adeiladau arbenigol – cost amnewid wedi'i dibrisio

Mae Trysorlys EM wedi mabwysiadu dull safonol o brisio costau amnewid wedi'u dibrisio ar sail asedau cyfwerth modern a, phan fyddai'n bodloni gofynion lleoliad y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu, gellir prisio safle arall. Mae sefydliadau GIG Cymru wedi rhoi'r gofynion prisio newydd hyn ar waith ers 1 Ebrill 2009.

Mae eiddo yn ystod y gwaith adeiladu at ddibenion gwasanaeth neu weinyddu yn cael ei gario ar ei union gost, llai unrhyw golled o ganlyniad i amhariad. Mae'r gost yn cynnwys ffioedd proffesiynol ond nid costau benthyca, sy'n cael eu cydnabod fel treuliau ar unwaith, fel y mae IAS 23 yn caniatáu ar gyfer asedau gwerth teg. Caiff asedau eu hailbrisio, a bydd dibrisiant yn dechrau pan fyddan nhw'n dechrau cael eu defnyddio..

Bydd cynnydd wrth ailbrisio yn cael ei briodoli i'r gronfa ailbrisio wrth gefn, ac eithrio pan fydd yn gwrthdroi amhariad ar gyfer yr un ased a oedd yn arfer cael ei gydnabod fel gwariant. Yn yr achos hwnnw bydd y cynnydd yn cael ei gredydu i wariant, i raddau'r gostyngiad a oedd wedi cael ei briodoli'n flaenorol i hynny. Mae gostyngiad ailbrisio nad yw'n deillio o golli gwerth economaidd neu botensial gwasanaeth yn cael ei gydnabod fel amhariad a briodolir i'r gronfa ailbrisio wrth gefn i'r graddau bod balans ar y gronfa wrth gefn ar gyfer yr ased ac, wedi hynny, i wariant. Dylai colledion ar ffurf amhariadau, sy'n deillio o ddefnydd clir o fudd economaidd, gael eu hystyried fel gwariant. Mae cyfeiriadau yn IAS 36 at gydnabod bod colled amhariad ar ased wedi'i ailbrisio yn cael ei thrin fel gostyngiad ailbrisio – i'r graddau nad yw'r amhariad yn fwy na'r swm yn y gwarged ailbrisio ar gyfer yr un ased – yn cael eu haddasu fel mai dim ond y colledion amhariadau hynny nad ydynt yn deillio o ddefnydd clir o fudd economaidd neu golli potensial gwasanaeth (gan gynnwys o ganlyniad i golled neu ddifrod sy'n deillio o weithrediadau busnes arferol) y dylid eu priodoli i'r gronfa wrth gefn. Dylai colledion ar ffurf amhariadau sy'n deillio o ddefnydd clir o fudd economaidd gael eu priodoli i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

O 2015-16 ymlaen, rhaid cydymffurfio'n llawn ag IFRS 13 Mesur Gwerth Teg. Fodd bynnag, mae IAS 16 ac IAS 38 wedi cael eu haddasu ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus, sy'n cyfyngu'r amgylchiadau lle mae prisiad yn cael ei baratoi o dan IFRS 13. Dylai asedau sy'n cael eu dal oherwydd eu potensial o ran gwasanaeth ac sy'n cael eu defnyddio gael eu mesur yn ôl gwerth cyfredol y defnydd presennol. Ar gyfer asedau arbenigol, dylid dehongli gwerth cyfredol y defnydd presennol fel gwerth cyfredol yr asedau sy'n dal â photensial gwasanaeth, y gellir tybio sydd o leiaf gyfwerth â'r gost o amnewid y potensial o ran gwasanaeth. Os nad oes un dosbarth o ased sy'n dod o dan IFRS 13, dim ond eitemau perthnasol y dylid eu datgelu.

Yn unol ag addasiad IAS 16 yn nhabl 6.2 y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol, ar gyfer asedau nad ydynt yn rhai arbenigol sy'n cael eu defnyddio at ddibenion gweithredol, mae gwerth cyfredol defnydd presennol yn cael ei ddehongli fel gwerth Marchnadol y defnydd presennol, a ddiffinnir yn Llyfr Coch RICS fel Adroddiad blynyddol AaGIC 2020/21 107 Gwerth Defnydd Presennol (EUV).

Dylai asedau a oedd yn cael eu dal yn fwyaf diweddar oherwydd eu potensial o ran gwasanaeth, ond sydd dros ben, gael eu prisio ar sail gwerth cyfredol y defnydd presennol os oes cyfyngiadau ar y sefydliad GIG neu'r ased a fyddai'n atal mynediad i'r farchnad ar y dyddiad adrodd. Os gallai'r sefydliad GIG gael mynediad at y farchnad, dylid defnyddio'r ased dros ben ar sail gwerth teg gan ddefnyddio IFRS 13. Wrth benderfynu a yw ased o'r fath, nad yw'n cael ei ddefnyddio, yn ased dros ben ai peidio, dylid asesu a oes cynllun clir i ailddechrau defnyddio'r ased fel ased gweithredol. Os oes cynllun clir, nid yw'r ased yn un dros ben a dylid cadw gwerth cyfredol y defnydd presennol. Fel arall, dylid asesu'r ased fel un dros ben, a'i brisio o dan IFRS13.

Dylai asedau nad ydynt yn cael eu dal oherwydd eu potensial o ran gwasanaeth gael eu prisio yn unol ag IFRS 5 neu IAS 40, gan ddibynnu ar a yw'r ased yn cael ei ddal yn fwriadol i gael ei werthu. Os nad yw ased yn cael ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau ac os nad oes bwriad i ddechrau ei ddefnyddio eto, nad oes cyfyngiadau ar werthu, ac nad yw'n bodloni meini prawf IAS 40 ac IFRS 5, mae'r asedau hyn yn rhai dros ben ac yn cael eu prisio ar sail gwerth teg gan ddefnyddio IFRS 13..

### 1.6.3. Gwariant dilynol

**Os bydd gwariant dilynol yn cynyddu gwerth ased y tu hwnt i'w fanyleb wreiddiol, bydd y gost y gellir ei phriodoli'n uniongyrchol yn cael ei chyfalafu. Os bydd gwariant dilynol yn adfer yr ased i'w fanyleb wreiddiol, bydd y gwariant yn cael ei gyfalafu a bydd gwerth dwyn ymlaen yr eitem wedi'i hamnewid yn cael ei ddileu a'i briodoli i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Fel y dywedwyd yn ystod blynyddoedd blaenorol, nid oes gan y GIG yng Nghymru systemau ar waith i sicrhau bod modd adnabod yr holl eitemau sy'n cael eu "hamnewid", ac felly'r gost sydd i'w mesur. Felly, mae'r GIG yng Nghymru wedi sefydlu protocol cenedlaethol i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r safon i'r graddau y mae'n bosib iddo, ac mae'r protocol yn cael ei amlinellu ym mhennod cyfrifyddu cyfalaf y Llawlyfr Cyfrifon. Mae'n gorchymyn ei bod yn rhaid sicrhau nad yw gwerthoedd dwyn ymlaen asedau yn cael eu datgan yn llawer yn rhy uchel. Ar gyfer Cynlluniau Cyfalaf Cymru Gyfan sy'n cael eu cwblhau mewn blwyddyn ariannol, mae'n rhaid i sefydliadau GIG Cymru gael ailbrisiad yn ystod y flwyddyn honno (cyn iddynt gael eu defnyddio). Mae hefyd angen ailbrisiadau tebyg ar gyfer pob Cynllun Adeiladu Dewisol a gwblhawyd sydd wedi gwario mwy na £0.5m. Mae'r gostyngiadau mewn gwerth a nodir yn cael eu priodoli i dreuliau gweithredu.**

### 1.7. Asedau anniriaethol

### 1.7.1. Cydnabyddiaeth

Mae asedau anniriaethol yn asedau anariannol heb sylwedd ffisegol, sy'n gallu cael eu gwerthu ar wahân i weddill y busnes neu sy'n deillio o hawliau contractiol neu gyfreithiol eraill. Maen nhw'n cael eu cydnabod dim ond pan fydd yn debygol y daw buddion economaidd neu botensial gwasanaeth i'r sefydliad yn GIG Cymru yn y dyfodol; lle gellir mesur cost yr ased yn ddibynadwy, a lle mae'r gost yn £5,000 o leiaf. Mae asedau anniriaethol sy'n cael eu caffael ar wahân yn cael eu cydnabod ar sail gwerth teg i gychwyn. Mae meddalwedd sy'n hanfodol er mwyn gweithredu caledwedd, er enghraifft system weithredu, yn cael ei chyfalafu fel eitem eiddo, offer a chyfarpar sy'n berthnasol. Mae meddalwedd nad yw'n hanfodol er mwyn gweithredu caledwedd, er enghraifft meddalwedd rhaglen, yn cael ei chyfalafu fel ased anniriaethol. Nid yw gwariant ar ymchwil yn cael ei gyfalafu: mae'n cael ei gydnabod fel traul weithredu yn y cyfnod y mae wedi codi. Mae asedau a gynhyrchir yn fewnol yn cael eu cydnabod os, a dim ond os, dangoswyd pob un o'r canlynol:

- ymarferoldeb technegol cwblhau'r ased anniriaethol er mwyn iddo fod ar gael i'w ddefnyddio
- y bwriad i gwblhau'r ased anniriaethol a'i ddefnyddio
- y gallu i ddefnyddio'r ased anniriaethol
- sut bydd yr ased anniriaethol yn creu budd economaidd tebygol yn y dyfodol
- bod adnoddau technegol, adnoddau ariannol ac adnoddau eraill digonol ar gael i gwblhau'r ased anniriaethol a'i ddefnyddio
- y gallu i fesur yn ddibynadwy y gwariant sydd i'w briodoli i'r ased anniriaethol yn ystod y broses o'i ddatblygu..

**Mesur**

Y swm sy'n cael ei gydnabod i gychwyn ar gyfer asedau anniriaethol a gynhyrchwyd yn fewnol, yw swm y gwariant o'r dyddiad pan gafodd y meini prawf uchod eu bodloni'n wreiddiol. Os na 108 Adroddiad blynyddol AaGIC 2020/21 ellir cydnabod ased

anniriaethol a gynhyrchwyd yn fewnol, bydd y gwariant yn cael ei gydnabod yn y cyfnod y wynebwyd y gwariant.

Ar ôl cael eu cydnabod i gychwyn, mae asedau anniriaethol yn cael eu dwyn ymlaen ar sail gwerth teg drwy gyfeirio at farchnad weithredol neu, os nad oes Mawrthnad weithredol yn bodoli, ar sail cost amnewid wedi'i hamorteiddio (ar sail asedau cyfwerth modern), wedi'i mynegeio ar gyfer cynnydd perthnasol mewn prisiau, fel procsi ar gyfer gwerth teg.

Mae meddalwedd a ddatblygwyd yn fewnol yn cael ei dal ar gost hanesyddol i adlewyrchu effeithiau croes cynnydd mewn costau datblygu a datblygiadau technolegol..

### 1.8. Dibrisiant, amorteiddiad ac amhariadau

Nid yw tir rhydd-ddaliad, asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu nac asedau i'w gwerthu yn cael eu dibrisio.

Fel arall, codir dibrisiant ac amorteiddiad a'u gosod yn erbyn costau neu brisiad eiddo, offer a chyfarpar ac asedau anghyfredol anniriaethol, llai unrhyw werth gweddilliol, dros amcangyfrif o'u hoes ddefnyddiol, a hynny mewn modd sy'n adlewyrchu'r defnydd o fudd economaidd neu botensial gwasanaeth yr asedau. Mae amcangyfrif o oes ddefnyddiol ased yn golygu'r cyfnod pan fydd y Sefydliad yn GIG Cymru yn disgwyl cael budd economaidd neu botensial gwasanaeth yn sgil yr ased. Mae hyn yn benodol i'r sefydliad, a gall fod yn fyrrach nag oes ffisegol yr ased ei hun. Mae'r amcangyfrif o'r oes ddefnyddiol a'r gwerthoedd gweddilliol yn cael ei adolygu bob blwyddyn, gydag effaith unrhyw newidiadau'n cael ei chydnabod ar sail debygol. Mae asedau sy'n cael eu dal o dan lesoedd cyllid yn cael eu dibrisio dros gyfnod y les neu'r amcangyfrif o'u hoes ddefnyddiol – pa un bynnag yw'r byrraf.

Ar ddiwedd pob cyfnod adrodd, mae'r sefydliad yn edrych i weld a oes unrhyw arwydd bod unrhyw un o'i asedau anghyfredol diriaethol neu anniriaethol wedi dioddef colled ar ffurf amhariad. Os oes arwydd o golled ar ffurf amhariad, amcangyfrifir y swm i'w adennill ar yr ased er mwyn penderfynu a fu colled ac, os felly, swm y golled. Mae asedau anniriaethol nad ydynt ar gael i'w defnyddio eto yn cael eu profi am amhariad yn flynyddol..

Mae colledion ar ffurf amhariadau nad ydynt yn deillio o golli gwerth economaidd neu botensial gwasanaeth yn cael eu priodoli i'r gronfa ailbrisio wrth gefn, i'r graddau bod balans ar y gronfa wrth gefn ar gyfer yr ased ac, wedi hynny, i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Mae colledion ar ffurf amhariadau sy'n deillio o ddefnydd clir o fudd economaidd yn cael eu priodoli i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Mae'r balans ar unrhyw gronfa ailbrisio wrth gefn (hyd at lefel yr amhariad) y byddai'r amhariad wedi cael ei briodoli iddi o dan IAS 36, yn cael ei drosglwyddo i enillion a gedwir.

### 1.9. Ymchwil a Datblygu

Mae gwariant ymchwil a datblygu yn cael ei briodoli i gostau gweithredu yn y flwyddyn y wynebir y gwariant, ac eithrio i'r graddau y mae'n ymwneud â phrosiect sydd wedi'i ddiffinio'n glir, y gellir ei wahanu oddi wrth weithgarwch gofal i gleifion ac y gall buddion o hynny gael eu hystyried yn rhesymol fel rhai sicr. Mae gwariant a ohiriwyd yn y ffordd honno wedi'i gyfyngu i werth y buddion disgwyliedig yn y dyfodol, ac mae'n cael ei amorteiddio drwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar sail systematig dros y cyfnod y disgwylir elwa o'r prosiect.

### 1.10 Asedau anghyfredol i'w gwerthu

Mae asedau anghyfredol yn cael eu dosbarthu fel rhai i'w gwerthu os bydd eu swm dwyn ymlaen yn cael ei adennill yn bennaf drwy drafodiadau gwerthu, yn hytrach na drwy ddefnydd parhaus. Ystyrir bod yr amod hwn wedi'i fodloni pan fydd y gwerthiant yn

debygol iawn, yr ased ar gael i'w werthu ar unwaith yn ei gyflwr presennol, a'r rheolwyr wedi ymrwymo i'r gwerthiant, y disgwylir iddo fod yn gymwys i gael ei gydnabod fel gwerthiant wedi'i gwblhau o fewn blwyddyn i ddyddiad y dosbarthiad. Mae asedau anghyfredol i'w gwerthu yn cael eu mesur ar sail eu swm dwyn ymlaen blaenorol, neu eu gwerth teg llai'r costau gwerthu - pa un bynnag yw'r isaf. Mae gwerth teg yn golygu gwerth ar y farchnad agored, gan gynnwys defnydd arall.

Yr elw neu'r golled sy'n deillio o waredu ased yw'r gwahaniaeth rhwng elw'r gwerthiant a'r swm dwyn ymlaen, ac mae hynny'n cael ei gydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Wrth waredu, bydd balans yr ased ar y gronfa ailbrisio wrth gefn yn cael ei drosglwyddo i'r Gronfa Gyffredinol..

Nid yw eiddo, offer a chyfarpar a fydd yn cael ei sgrapio neu ei ddymchwel yn gymwys i gael Adroddiad blynyddol AaGIC 2020/21 109 ei gydnabod fel ased i'w werthu. Yn hytrach na hynny caiff ei gadw fel ased gweithredol, a bydd ei oes economaidd yn cael ei addasu. Bydd yr ased yn cael ei ddatgydnabod pan fydd yn cael ei sgrapio neu ei ddymchwel..

### 1.11. Lesoedd

Mae lesoedd yn cael eu dosbarthu fel lesoedd cyllid pan fydd yr holl risgiau a manteision sy'n gysylltiedig â pherchnogaeth yn cael eu trosglwyddo i'r lesddeiliad. Mae pob les arall yn cael ei dosbarthu fel les weithredol.

#### 1.11.1. Y sefydliad fel lesddeiliad

Mae eiddo, offer a chyfarpar sy'n cael eu dal o dan lesoedd cyllid yn cael eu cydnabod i gychwyn, ar ddechrau'r les, ar sail gwerth teg neu, os yw'n is, ar sail gwerth presennol y taliadau les lleiaf, gyda rhwymedigaeth gyfatebol ar gyfer y rhwymedigaeth les i'r lesydd. Mae taliadau les yn cael eu rhannu rhwng costau cyllid a gostyngiad yn y rhwymedigaeth les er mwyn sicrhau cyfradd llog gyson ar weddill balans y rhwymedigaeth. Mae costau cyllid yn cael eu priodoli'n uniongyrchol i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Mae taliadau ar gyfer les weithredol yn cael eu cydnabod fel traul ar sail llinell syth dros gyfnod y les. Mae cymhellion les yn cael eu cydnabod i gychwyn fel rhwymedigaeth, ac wedyn fel gostyngiad mewn rhenti ar sail llinell syth dros gyfnod y les. Mae rhenti digwyddiadol yn cael eu cydnabod fel traul yn y cyfnod y byddant yn codi.

Pan fydd les ar gyfer tir ac adeiladau, caiff yr elfennau tir ac adeiladau eu gwahanu a'u hasesu ar wahân i weld a ydynt yn lesoedd gweithredol ynteu'n lesoedd cyllid..

#### 1.11.2. Y sefydliad fel lesydd

Mae'r symiau sy'n ddyledus gan lesddeiliaid o dan lesoedd cyllid yn cael eu cofnodi fel symiau derbyniadwy ar swm buddsoddiad net y sefydliad yn y lesoedd. Mae incwm o lesoedd cyllid yn cael ei ddyrannu i gyfnodau cyfrifyddu er mwyn adlewyrchu cyfradd adennill gyfnodol gyson ar fuddsoddiad net y sefydliad sy'n ddyledus mewn perthynas â'r lesoedd. Caiff incwm rhent o lesoedd gweithredol eu cydnabod ar sail llinell syth dros gyfnod y les. Mae costau uniongyrchol cychwynnol sy'n codi wrth negodi a threfnu les weithredol yn cael eu hychwanegu at swm dwyn ymlaen yr ased ar les, ac yn cael eu cydnabod ar sail llinell syth dros gyfnod y les.

### 1.12. Rhestrau eiddo

Er mai'r confensiwn cyfrifyddu yw prisio rhestrau eiddo ar y gost neu'r gwerth realeiddiadwy net – pa un bynnag yw'r isaf – gan ddefnyddio'r fformiwla costau "cyntaf i

mewn, cyntaf allan" neu'r cyfartaledd pwysedig, dylid cydnabod bod y GIG yn achos arbennig gan nad yw rhestrau eiddo'n cael eu dal yn gyffredinol gyda'r bwriad o ailwerthu – yn wir, nid oes Mawrthnad hwylus lle gellid gwerthu eitemau o'r fath. Mae rhestrau eiddo yn cael eu prisio yn ôl eu cost, ac mae hyn yn cael ei ystyried yn frasamcan rhesymol o werth teg oherwydd trosiant uchel stociau. Mae gwaith sydd ar y gweill yn cynnwys nwyddau sydd hanner ffordd drwy'r broses gynhyrchu. Nid yw contractau sydd wedi cael eu cwblhau'n rhannol ar gyfer gwasanaethau cleifion yn cael eu hystyried yn waith sydd ar y gweill..

### 1.13. Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod

Mae arian parod yn golygu arian mewn llaw a blaendaliadau gydag unrhyw sefydliad ariannol y gellir eu had-dalu heb gosb os rhoddir rhybudd o ddim mwy na 24 awr. Mae symiau sy'n cyfateb i arian parod yn fuddsoddiadau sy'n aeddfedu ymhen 3 mis neu lai o'r dyddiad caffael, ac y mae'n hawdd eu trosi i symiau pendant o arian parod heb lawer o risg y bydd eu gwerth yn newid. Yn y Datganiad Llifoedd Arian Parod, mae arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn cynnwys y gorddrafftiau banc sydd i'w had-dalu ar gais, ac sy'n rhan annatod o'r rheolaeth ariannol.

### 1.14. Darpariaethau

Mae darpariaethau'n cael eu cydnabod pan fydd gan y sefydliad yn GIG Cymru rwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol gyfredol o ganlyniad i ddigwyddiad blaenorol, pan fydd yn debygol y bydd yn rhaid i'r sefydliad setlo'r rhwymedigaeth, a phan fydd modd gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth. Y swm a gydnabyddir fel darpariaeth yw'r amcangyfrif gorau o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth ar ddiwedd y cyfnod adrodd, gan ystyried y risgiau a'r ansicrwydd. Pan fydd darpariaeth yn cael ei mesur gan ddefnyddio'r amcangyfrif o'r llifoedd arian parod i setlo'r rhwymedigaeth, ei swm dwyn ymlaen yw gwerth presennol y llifoedd arian hynny, gan ddefnyddio'r gyfradd ddisgownt a ddarperir gan Drysorlys EM.

Pan ddisgwylir y bydd rhai neu bob un o'r 110 Adroddiad blynyddol AaGIC 2020/21 buddion economaidd sy'n ofynnol er mwyn setlo darpariaeth yn cael eu hadennill gan drydydd parti, bydd y swm derbyniadwy yn cael ei gydnabod fel ased os yw bron yn sicr y bydd ad-daliadau'n cael eu derbyn, a bod modd mesur y swm derbyniadwy mewn ffordd ddibynadwy..

Mae rhwymedigaethau cyfredol sy'n codi o dan gontractau beichus yn cael eu cydnabod a'u mesur fel darpariaeth. Bydd contract yn cael ei ystyried yn un beichus pan fydd gan y sefydliad gontract lle mae costau anochel y broses o gyflawni'r rhwymedigaethau o dan y contract yn fwy na'r buddion economaidd a ddisgwylir gan y contract. Mae darpariaeth ailstrwythuro yn cael ei chydnabod pan fydd y sefydliad wedi datblygu cynllun ffurfiol manwl ar gyfer yr ailstrwythuro, ac wedi creu disgwyliad dilys ymysg y rheini yr effeithir arnynt y bydd yn cyflawni'r ailstrwythuro drwy ddechrau rhoi'r cynllun ar waith, neu gyhoeddi ei brif nodweddion i'r rheini y mae'r cynllun yn effeithio arnynt. Mae'r broses o fesur darpariaeth ailstrwythuro yn cynnwys dim ond y gwariant uniongyrchol sy'n deillio o'r ailstrwythuro, sef y symiau hynny sy'n rhan angenrheidiol o'r ailstrwythuro ac nad ydynt yn gysylltiedig â gweithgareddau parhaus yr endid.

#### 1.14.1. Costau esgeuluster clinigol a niwed personol

Mae Gwasanaethau Cronfa Risg Cymru (WRPS) yn gweithredu cynllun cronni risg sy'n cael ei ariannu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, gyda'r opsiwn o gael cytundeb rhannu

risg sy'n cael ei ariannu gan gyrff GIG Cymru sy'n cymryd rhan ynddo. Cafodd yr opsiwn rhannu risg ei roi ar waith yn 2020-21 ac yn 2019-20, er ni chafodd unrhyw gostau eu dosrannu i AaGIC yn ystod y naill flwyddyn na'r llall. Mae Cronfa Risg Cymru yn cael ei chynnal gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre.

**1.15 Cyfraddau Disgownt**

Pan fydd gostyngiad yn cael ei roi, datgeliad sy'n nodi effaith y disgownt ar rwymedigaethau sydd i'w cynnwys ar gyfer y nodiadau perthnasol. Dylai'r datgeliad gynnwys, lle bo modd, werthoedd heb eu cyfrif i ddangos yr effaith. Dylid cynnwys esboniad o ffynhonnell y gyfradd ddisgowntio neu sut y penderfynwyd bod y gyfradd ddisgowntio wedi'i chynnwys.

**1.16. Offerynnau Ariannol**

Ers 2018-19 mae'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol wedi bod yn defnyddio safon IFRS 9 Offerynnau Ariannol, fel y mae wedi cael ei dehongli a'i haddasu ar gyfer y sector cyhoeddus. Wrth i sefydliadau GIG Cymru fabwysiadu IFRS 9, y prif effaith oedd newid y sail gyfrifo ar gyfer darpariaethau dyled ddrwg, gan newid o sail colled a achoswyd i sail credyd a gollir dros oes ddisgwyliedig (ECL).

Roedd yr holl endidau a oedd yn defnyddio'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol yn cydnabod y gwahaniaeth rhwng y swm dwyn ymlaen blaenorol a'r swm dwyn ymlaen ar ddechrau'r cyfnod adrodd blynyddol, a oedd yn cynnwys y dyddiad dechrau defnyddio yn y gronfa gyffredinol agoriadol o fewn ecwiti trethdalwyr..

**1.17. Asedau ariannol**

Mae asedau ariannol yn cael eu cydnabod ar y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol pan fydd y sefydliad yn GIG Cymru yn dod yn rhan o'r contract offeryn ariannol neu, yn achos symiau masnach derbyniadwy, pan fydd y nwyddau neu'r gwasanaethau wedi cael eu cyflwyno. Caiff asedau ariannol eu datgydnabod pan fydd hawliau'r contract wedi dod i ben, neu pan fydd yr ased wedi cael ei drosglwyddo.

Mae'r opsiwn polisi cyfrifyddu a ganiateir o dan IFRS 9 ar gyfer symiau masnach derbyniadwy tymor hir, asedau contract sydd ag elfen ariannu sylweddol (yn unol ag IFRS 15), a symiau les derbyniadwy o fewn cwmpas IAS 17 wedi cael ei dynnu'n ôl, a dylai endidau bob amser gydnabod colled ar swm sy'n hafal i'r Credyd a Gollir dros Oes Ddisgwyliedig. Dylai pob endid sy'n defnyddio'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol ddefnyddio dull syml IFRS 9 ar gyfer amhariad ar asedau perthnasol.

Roedd gofynion IFRS 9 yn gofyn am ddull diwygiedig o gyfrifo'r ddarpariaeth dyled ddrwg, gan roi ar waith yr egwyddorion credyd a gollir dros oes ddisgwyliedig, a defnyddio'r dulliau ymarferol yn IFRS 9 i lunio matrics darpariaeth..

### 1.17.1. Mae asedau ariannol yn cael eu cydnabod ar sail gwerth teg i gychwyn

Mae asedau ariannol yn cael eu dosbarthu i'r categorïau canlynol: asedau ariannol 'ar sail gwerth teg drwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr'; 'buddsoddiadau sy'n cael eu dal nes byddant yn aeddfedu'; asedau ariannol 'sydd ar gael i'w gwerthu', a 'benthyciadau a symiau derbyniadwy'. Mae'r dosbarthiad yn dibynnu ar natur a phwrpas yr asedau ariannol, ac mae'n cael ei bennu adeg y gydnabyddiaeth gychwynnol..

### 1.17.2. Asedau ariannol ar sail gwerth teg drwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

Mae deilliadau wedi'u mewnosod (embedded derivatives) sydd â gwahanol risgiau a nodweddion i'w contractau lletya, a chontractau â deilliadau wedi'u mewnosod na ellir canfod eu gwerth unigol, yn cael eu trin fel asedau ariannol ar sail gwerth teg drwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Maen nhw'n cael eu dal ar sail gwerth teg, gydag Adroddiad blynyddol AaGIC 2020/21 111 unrhyw golled neu enillion yn sgil hynny yn cael eu cydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Mae'r enillion neu'r golled net yn cynnwys unrhyw log sy'n cael ei ennill ar yr ased ariannol..

### 1.17.3 Buddsoddiadau sy'n cael eu dal nes iddynt aeddfedu

Mae buddsoddiadau sy'n cael eu dal nes iddynt aeddfedu yn asedau ariannol anneilliannol gyda thaliadau sefydlog neu bendant ac aeddfedrwydd sefydlog, ac mae bwriad a gallu i'w dal nes iddynt aeddfedu. Ar ôl cael eu cydnabod i gychwyn, maen nhw'n cael eu dal ar sail cost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol, llai unrhyw amhariad. Mae llog yn cael ei gydnabod drwy ddefnyddio'r dull llog effeithiol.

### 1.17.4. Asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu

Mae asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu yn asedau ariannol anneilliannol sydd wedi'u dynodi'n rhai sydd ar gael i'w gwerthu neu nad ydynt yn dod o fewn unrhyw un o'r tri dosbarthiad arall o asedau ariannol. Maen nhw'n cael eu mesur ar sail gwerth teg, gyda newidiadau mewn gwerth yn cael eu priodoli i'r gronfa ailbrisio wrth gefn, ac eithrio colledion ar ffurf amhariadau. Mae enillion neu golledion cronedig yn cael eu hailgylchu i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr wrth ddatgydnabod.

### 1.17.5. Benthyciadau a symiau derbyniadwy

Mae benthyciadau a symiau derbyniadwy yn asedau ariannol anneilliannol gyda thaliadau sefydlog neu bendant nad ydynt yn cael eu dyfynnu mewn Marchnad weithredol. Ar ôl cael eu cydnabod i gychwyn, maen nhw'n cael eu mesur ar sail cost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol, llai unrhyw amhariad. Mae llog yn cael ei gydnabod drwy ddefnyddio'r dull llog effeithiol.

Pennir gwerth teg drwy gyfeirio at brisiau a ddyfynnwyd ar gyfer y farchnad pan fydd modd, fel arall drwy ddefnyddio technegau prisio.

Ystyr cyfradd llog effeithiol yw'r gyfradd sy'n gostwng yr amcangyfrif o dderbyniadau arian parod yn y dyfodol drwy oes ddisgwyliedig yr ased ariannol, i union swm dwyn ymlaen net yr ased ariannol.

Ar ddyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, mae'r sefydliad yn asesu a oes amhariad ar unrhyw asedau ariannol, ar wahân i'r rheini sy'n cael eu dal ar sail 'gwerth teg drwy enillion a cholled'. Mae asedau ariannol yn dioddef amhariad, a chydnabyddir colledion amhariad os oes tystiolaeth wrthrychol o amhariad o ganlyniad i un neu ragor o ddigwyddiadau a fu ar ôl cydnabod yr ased i gychwyn, ac sy'n effeithio ar yr amcangyfrif o lifoedd arian parod yr ased yn y dyfodol.

Ar gyfer asedau ariannol sy'n cael eu cario ar gost wedi'i hamorteiddio, caiff swm y golled ar ffurf amhariad ei fesur fel y gwahaniaeth rhwng swm dwyn ymlaen yr ased a gwerth presennol y llifoedd arian parod diwygiedig yn y dyfodol sy'n cael eu gostwng yn unol â chyfradd llog effeithiol wreiddiol yr ased. Mae'r golled yn cael ei chydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, ac mae swm dwyn ymlaen yr ased yn cael ei leihau'n uniongyrchol, neu drwy amhariad ar y symiau derbyniadwy.

Os bydd swm y golled ar ffurf amhariad yn gostwng mewn cyfnod dilynol, a bod modd cysylltu'r gostyngiad yn wrthrychol â rhywbeth ddigwyddodd ar ôl i'r amhariad gael ei gydnabod, bydd y golled amhariad a gafodd ei chydnabod yn flaenorol yn cael ei gwrthdroi drwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, i'r graddau nad yw swm dwyn ymlaen y swm derbyniadwy ar ddyddiad gwrthdroi'r amhariad yn fwy na'r hyn y byddai'r gost wedi'i hamorteiddio wedi bod pe na bai'r amhariad wedi cael ei gydnabod..

### 1.18. Rhwymedigaethau ariannol

Mae rhwymedigaethau ariannol yn cael eu cydnabod ar y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol pan fydd y sefydliad yn GIG Cymru yn dod yn rhan o ddarpariaethau contractiol yr offeryn ariannol neu, yn achos symiau masnach taladwy, pan fydd y nwyddau neu'r gwasanaethau wedi cael eu derbyn. Mae rhwymedigaethau ariannol yn cael eu datgydnabod pan fydd y rhwymedigaeth wedi cael ei chyflawni, hynny yw, mae'r rhwymedigaeth wedi cael ei thalu neu wedi dod i ben.

#### 1.18.1. Mae rhwymedigaethau ariannol yn cael eu cydnabod ar sail gwerth teg i gychwyn

Mae rhwymedigaethau ariannol yn cael eu dosbarthu fel naill ai rhwymedigaethau ariannol ar sail gwerth teg drwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, neu rwymedigaethau ariannol eraill.

#### 1.18.2. Rhwymedigaethau ariannol ar sail gwerth teg drwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

gwahanol risgiau a nodweddion i'w contractau 112 Adroddiad blynyddol AaGIC 2020/21 lletya, a chontractau â deilliadau wedi'u mewnosod na ellir canfod eu gwerth unigol, yn cael eu trin fel rhwymedigaethau ariannol ar sail gwerth teg drwy elw a cholled. Maen nhw'n cael eu dal ar sail gwerth teg, gydag unrhyw golled neu enillion yn sgil hynny yn cael eu cydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Mae'r golled neu'r enillion net yn cynnwys unrhyw log sydd wedi cael ei ennill ar yr ased ariannol..

### 1.18.3. Rhwymedigaethau ariannol eraill

Ar ôl cael eu cydnabod i gychwyn, mae'r holl rwymedigaethau ariannol eraill yn cael eu mesur ar sail cost wedi'i hamorteiddio, gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol. Ystyr cyfradd llog effeithiol yw'r gyfradd sy'n gostwng yr amcangyfrif o daliadau arian parod yn y dyfodol drwy oes ddisgwyliedig yr ased, i union swm dwyn ymlaen net y rhwymedigaeth ariannol. Mae llog yn cael ei gydnabod drwy ddefnyddio'r dull llog effeithiol..

### 1.19. Treth Ar Werth (TAW)

Nid yw TAW yn berthnasol i'r rhan fwyaf o weithgareddau'r sefydliad ac, yn gyffredinol, nid yw treth wrth werthu yn berthnasol ac ni ellir adennill treth wrth brynu ar yr hyn a brynwyd. Mae TAW na ellir ei hadennill yn cael ei phriodoli i'r categori gwariant perthnasol, neu ei chynnwys yng nghost prynu asedau sefydlog sydd wedi cael ei chyfalafu. Pan godir treth wrth werthu neu pan fydd TAW ar brynu yn gallu cael ei hadennill, nid yw'r symiau sy'n cael eu datgan yn cynnwys TAW.

### 1.20. Arian Tramor

Mae trafodiadau mewn arian tramor yn cael eu trosi i sterling ar y gyfradd gyfnewid sydd mewn grym ar ddyddiadau'r trafodiadau. Mae'r enillion a'r colledion yn sgil y cyfnewid yn cael eu nodi ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Ar ddyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, mae eitemau ariannol mewn arian tramor yn cael eu haildrosi ar y cyfraddau sy'n bodoli ar y dyddiad adrodd.

### 1.21. Asedau trydydd parti

Nid yw asedau sy'n eiddo i drydydd partïon (fel arian sy'n cael ei ddal ar ran cleifion) yn cael eu cydnabod yn y cyfrifon, gan nad oes gan y sefydliad unrhyw fuddiant llesiannol ynddynt. Mae manylion asedau trydydd parti yn cael eu nodi yn y Nodiadau i'r cyfrifon.

### 1.22. Colledion a Thaliadau Arbennig

Mae colledion a thaliadau arbennig yn golygu eitemau na fyddai Llywodraeth Cymru wedi'u hystyried wrth gytuno ar gyllid ar gyfer y gwasanaeth iechyd neu basio deddfwriaeth. Oherwydd eu natur maen nhw'n eitemau na ddylent godi, yn ddelfrydol. Felly mae gweithdrefnau rheoli arbennig yn berthnasol i'r eitemau hyn, o'u cymharu â'r rhan fwyaf o daliadau. Maen nhw'n cael eu rhannu'n gategorïau gwahanol, sy'n rheoli'r ffordd o ddelio â phob achos unigol. Mae colledion a thaliadau arbennig yn cael eu priodoli i'r penawdau swyddogaethol perthnasol yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar sail croniadau, gan gynnwys colledion y byddai yswiriant wedi eu had-dalu pe na bai'r sefydliad wedi bod yn ysgwyddo ei risgiau ei hun (gyda phremiymau yswiriant wedyn yn cael eu cynnwys fel gwariant refeniw arferol). Fodd bynnag, mae'r nodyn ar golledion a thaliadau arbennig yn cael ei lunio'n uniongyrchol ar sail y gofrestr colledion sy'n cael ei pharatoi ar sail arian parod.

Mae'r sefydliad yn rhoi cyfrif am yr holl golledion a thaliadau arbennig gros (gan gynnwys cymorth gan Gronfa Risg Cymru).

Mae'r sefydliad yn cronni neu'n darparu ar gyfer yr amcangyfrif gorau o daliadau yn y dyfodol ar gyfer rhwymedigaethau penodol, ac yn datgelu'r holl daliadau posib eraill fel rhwymedigaethau digwyddiadol, oni bai ei bod yn annhebygol iawn y bydd yn rhaid talu'r rhwymedigaethau.

Darperir ar gyfer pob hawliad am golledion a thaliadau arbennig, lle mae'r tebygolrwydd o setlo hawliad unigol yn fwy na 50%. Pan fydd modd gwneud amcangyfrifon dibynadwy, bydd achosion o esgeuluster clinigol nad oes hawliad wedi dod i law ar eu cyfer hyd yma yn cael eu darparu yn yr un ffordd. Mae ad-daliadau disgwyliedig gan Gronfa Risg Cymru yn cael eu cynnwys o dan y dyledwyr. Ar gyfer yr hawliadau hynny lle mae'r tebygolrwydd o setlo rhwng 5 a 50%, datgelir y rhwymedigaeth fel rhwymedigaeth ddigwyddiadol..

### 1.23. Cyllideb gyfun

Yn unol ag adran 33 o Ddeddf y GIG (Cymru) 2006, gall sefydliadau GIG Cymru weithredu cyllidebau cyfun gydag Awdurdodau Lleol ar gyfer gweithgareddau penodol a ddiffinnir yn y Nodyn cyllideb gyfun.

Nid yw AaGIC AIA wedi ymrwymo i unrhyw drefniadau cyllideb gyfun,

### 1.24. Penderfyniadau cyfrifyddu hollbwysig a phrif ffynonellau o ansicrwydd ynghylch amcangyfrifon

Wrth roi'r polisïau cyfrifyddu ar waith, mae'n rhaid i'r rheolwyr wneud penderfyniadau, amcangyfrifon a rhagdybiaethau ynglŷn â symiau dwyn ymlaen asedau a rhwymedigaethau nad ydynt yn gwbl amlwg o ffynonellau eraill.

Mae'r amcangyfrifon a'r rhagdybiaethau cysylltiedig yn seiliedig ar brofiad blaenorol a ffactorau eraill yr ystyrir eu bod yn berthnasol. Gall y canlyniadau go iawn fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hynny. Mae'r amcangyfrifon a'r rhagdybiaethau sylfaenol yn cael eu hadolygu'n barhaus. Mae cywiriadau i amcangyfrifon cyfrifyddu yn cael eu cydnabod yn y cyfnod pan fydd yr amcangyfrif yn cael ei gywiro os yw'r cywiro'n cael effaith ar y cyfnod hwnnw'n unig, neu yng nghyfnod y cywiro ac mewn cyfnodau diweddarach os yw'r cywiro'n effeithio ar y cyfnod cyfredol ac ar gyfnodau diweddarach.

### 1.25. Ffynonellau allweddol o ansicrwydd ynghylch amcangyfrifon

Nid oes ansicrwydd ynghylch amcangyfrifon ar ddyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol sy'n achosi risg sylweddol o addasiad o bwys i symiau dwyn ymlaen asedau a rhwymedigaethau yn y flwyddyn ariannol nesaf.

### 1.26 Trafodiadau Menter Cyllid Preifat (PFI)

Nid oes gan y sefydliad drefniadau PFI.

### 1.27. Eitemau Digwyddiadol

Mae rhwymedigaeth ddigwyddiadol yn rhwymedigaeth bosib sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol, ac mae'r cadarnhad o'i bodolaeth yn dibynnu'n llwyr ar a fydd un neu ragor o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol, nad ydynt o dan reolaeth lwyr y sefydliad, yn digwydd ai peidio. Mae hefyd yn rhwymedigaeth gyfredol nad yw'n cael ei chydnabod oherwydd ei bod yn annhebygol y bydd angen talu i setlo'r rhwymedigaeth, neu na ellir mesur swm y rhwymedigaeth mewn ffordd ddigon dibynadwy. Datgelir rhwymedigaeth ddigwyddiadol oni bai ei bod yn annhebygol iawn y bydd angen talu.

Mae ased digwyddiadol yn ased posib sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol, ac mae'r cadarnhad o'i fodolaeth yn dibynnu ar a fydd un neu ragor o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol, nad ydynt o dan reolaeth lwyr y sefydliad, yn digwydd ai peidio. Caiff ased digwyddiadol ei ddatgelu pan fydd llif o fuddion economaidd yn debygol.

Pan fydd gwerth amser yr arian yn bwysig, datgelir eitemau digwyddiadol ar eu gwerth presennol.

Rhwymedigaethau digwyddiadol annhebygol yw'r rheini a ddatgelir o dan ofynion adrodd Seneddol ac nid o dan IAS 37 a, phan fydd hynny'n ymarferol, mae angen amcangyfrif o'u heffaith ariannol..

### 1.28. Cyfrifyddu amsugnol

Rhoddir cyfrif am drosglwyddo swyddogaethau naill ai drwy gyfrifyddu cyfunol neu drwy gyfrifyddu amsugnol, gan ddibynnu ar y driniaeth a nodir yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol. Mae cyfrifyddu amsugnol yn mynnu bod endidau'n rhoi cyfrif am eu trafodiadau yn y cyfnod pan ddigwyddodd y trafodiadau, heb fod angen ailddatgan y perfformiad. Pan drosglwyddir swyddogaeth, bydd y golled neu'r enillion sy'n deillio o drosglwyddo'r asedau a'r rhwymedigaethau yn cael eu cydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, ac yn cael eu datgelu ar wahân i'r costau gweithredu.

### 1.29. Safonau cyfrifyddu sydd wedi cael eu cyhoeddi, ond heb gael eu mabwysiadu eto

Mae'r safonau cyfrifyddu canlynol wedi cael eu cyhoeddi a/neu eu diwygio gan IASB ac IFRIC, ond nid ydynt wedi cael eu mabwysiadu gan nad oes rhaid i'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol eu mabwysiadu ar hyn o bryd

IFRS14 Cyfrifon Gohirio Rheoleiddiol

Mae'n berthnasol i'r rheini sy'n mabwysiadu IFRS am y tro cyntaf ar ôl 1 Ionawr 2016. Felly nid yw'n berthnasol.

Bydd IFRS 16 Lesoedd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2022.

IFRS 17 Contractau Yswiriant. Mae'n rhaid defnyddio'r safon hon ar gyfer cyfnodau cyfrifyddu sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2021 neu ar ôl hynny, ond nid yw wedi cael ei mabwysiadu eto gan y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol: felly ni chaniateir mabwysiadu'n gynnar.

### 1.30. Safonau cyfrifyddu a gyhoeddwyd sydd wedi cael eu mabwysiadu'n gynnar

Yn ystod 2021-22, nid oes unrhyw safonau cyfrifyddu wedi cael eu mabwysiadu'n gynnar. Trysorlys EM fydd yn arwain yr holl waith o fabwysiadu safonau cyfrifyddu yn gynnar..

### 1.31. Elusennau

Nid oes gan y Sefydliad Gronfa Elusennol.

## 2. Perfformiad Dyletswyddau Ariannol

Sefydlwyd AaGIC fel Awdurdod Iechyd Arbennig. Mae dyletswyddau ariannol statudol Awdurdodau Iechyd Arbennig wedi'u nodi yn adran 172 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Mae adran 172(1) yn egluro'r hyn y cyfeirir ato fel y 'Ddyletswydd Ariannol Gyntaf' – dyletswydd i sicrhau nad yw gwariant AaGIC yn fwy na chyfanswm y cyllid a neilltuwyd iddo ar gyfer blwyddyn ariannol. O dan y pwerau cyfarwyddo yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru), roedd adran 172(6) WHC/2019/004 yn egluro bod y ddyletswydd ariannol statudol flynyddol yn cael ei gosod ar wahân ar gyfer dyraniadau adnoddau cyfalaf a refeniw.2.1 Revenue Resource Performance

| | Perfformiad ariannol 2021-22 £000 |
|---|---|
| **Costau gweithredol net ar gyfer y cyfnod** | **267,837** |
| Llai gwariant ar wasanaethau offthalmig cyffredinol a gwariant arall heb derfyn arian parod | **0** |
| Llai canlyniadau refeniw o ddod â chynlluniau PFI i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr | **0** |
| Cyfanswm treuliau gweithredu | **267,837** |
| Dyraniad Adnoddau Refeniw | **268,180** |
| | **343** |

**Tanwariant / (Gorwariant) yn erbyn y Dyraniad**

Mae AaGIC wedi cyflawni ei ddyletswydd ariannol i fantoli'r gyllideb yn erbyn ei Derfyn Adnoddau Refeniw dros y cyfnod

.

**2.2 Perfformiad Adnoddau Cyfalaf**

| | |
|---|---|
| **2021-22** | |
| **£000** | |
| **Gwariant cyfalaf gros** | **280** |
| Ychwanegu: Colledion wrth waredu asedau a gafwyd yn rhodd | **0** |
| Llai: Gwerth net ar y llyfrau ar gyfer eiddo, offer a chyfarpar ac asedau anniriaethol a gafodd eu gwaredu | **0** |
| Llai: grantiau cyfalaf a gafodd eu derbyn | **0** |
| Llai: rhoddion a gafodd eu derbyn | **0** |
| Tâl yn erbyn Dyraniad Adnoddau Cyfalaf | **280** |
| Dyraniad Adnoddau Cyfalaf | **283** |
| | **3** |

**Gorwariant) / Tanwariant yn erbyn Dyraniad Adnoddau Cyfalaf**

Mae AaGIC wedi cyflawni ei ddyletswydd ariannol i fantoli'r gyllideb yn erbyn ei Derfyn Adnoddau Cyfalaf dros y cyfnod

### 2.3 Dyletswydd i baratoi cynllun blwyddyn

Oherwydd y pandemig, cafodd y broses ar gyfer cynllun integredig 2020-23 ei gohirio yng ngwanwyn 2020 a gweithredwyd trefniant cynllunio dros dro.
Yng Nghylchlythyr Iechyd Cymru WHC (2020) 022 nododd Llywodraeth Cymru Fframwaith Cynllunio Blynyddol GIG Cymru ar gyfer 2021-22, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i holl Sefydliadau Iechyd GIG Cymru gyflwyno cynllun blynyddol a gymeradwywyd gan y Bwrdd erbyn 31 Mawrth 2021.
Mae AIA AaGIC gyda chytundeb Llywodraeth Cymru wedi gweithredu o dan gynllun gweithredu blynyddol a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2021. Yn dilyn adborth gan Lywodraeth Cymru, cymeradwywyd y cynllun terfynol gan y Bwrdd ym mis Mehefin 2021.

### 2.4 Talu credydwyr

Mae'n rhaid i'r Awdurdod Iechyd Arbennig dalu 95% o nifer y biliau nad ydynt yn rhai'r GIG o fewn 30 diwrnod i dderbyn y nwyddau neu anfoneb ddilys (pa un bynnag yw'r hwyraf). Mae'r Awdurdod Iechyd Arbennig wedi cyflawni'r canlynol::

| | **2021-22** | 2021-22 |
|---|---|---|
| Cyfanswm y biliau nad ydynt yn rhai'r GIG a gafodd eu talu | **5,462** | 4,715 |
| Cyfanswm y biliau nad ydynt yn rhai'r GIG a gafodd eu talu o fewn y targed | **5,287** | 4,520 |
| Canran y biliau nad ydynt yn rhai'r GIG a gafodd eu talu o fewn y targed | **96.8%** | 95.9% |

**Mae AIA AaGIC wedi cyrraedd y targed.**

## 3. Dadansoddiad o'r costau

## gweithredu gros 3.1 Addysg a

### Hyfforddiant Anfeddygol

| | 2021-22 | 2020-21 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| | | Restated |
| Ffioedd Hyfforddi Myfyrwyr (Prifysgolion) | 65,129 | 61,998 |
| Costau Hyfforddi Ychwanegol (Prifysgolion) | 1,693 | 68 |
| Cyllid ar gyfer Ffioedd Addysg Gofal Iechyd (Ymddiriedolaethau a Byrddau Iechyd) | 2,007 | 1,837 |
| Ad-dalu Bwrsarïau Myfyrwyr (Prifysgolion) | 24,681 | 23,042 |
| Ad-dalu Cyflogau Myfyrwyr (Ymddiriedolaethau a Byrddau Iechyd) | 17,395 | 14,909 |
| Ffioedd Hyfforddiant Ymarfer Uwch | 1,569 | 1,237 |
| Hyfforddiant Gwaith Cymorth Gofal Iechyd | 2,256 | 1,964 |
| Presgripsiynu Anfeddygol | 278 | 319 |
| Teithio a Chynhaliaeth sy'n gysylltiedig â Theithio | 3,843 | 2,097 |
| Lwfans Cefnogi Anabledd | 907 | 652 |
| Arall | 131 | 111 |
| **Cyfanswm** | **119,889** | 108,234 |

| **3.2 Addysg Feddygol, Ddeintyddol a Fferyllol Ôl-raddedig** | **2021-22** | 2020-21 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| | | Restated |
| Cyflogau Graddfa Hyfforddiant | 55,994 | 52,462 |
| Canolfannau i Raddedigion ac Absenoldeb Astudio | 4,804 | 4,768 |
| Cofrestryddion Meddygon Teulu | 31,526 | 25,748 |
| Hyfforddeion Deintyddol Sylfaenol | 8,333 | 4,274 |
| Hyfforddiant Fferyllol | 9,042 | 7,281 |
| Cynefino a Gloywi | 61 | 43 |
| Hyfforddiant Academaidd Clinigol Cymru | 1,606 | 1,634 |
| Costau datblygiad proffesiynol parhaus ac arfarnu meddygon teulu | 1,017 | 527 |
| Costau Adleoli Hyfforddai | 1,410 | 1,202 |
| Arall | 931 | 804 |
| **Cyfanswm** | **114,724** | 98,743 |

Ar gyfer 2021/22 adolygwyd y categorïau gwariant a adroddwyd yn y cyfrifon blynyddol er mwyn cyd-fynd yn well â'r broses adrodd fewnol yn y SHA. Lle mae newidiadau wedi'u gwneud mae ffigurau 2020-21 wedi'u hailddatgan.

| **3.3 Gwariant Gweithredu Arall** | **2021-22** | 2020-21 |
|---|---|---|

| | £000 | £000 Restated |
|---|---|---|
| Byrddau Iechyd Lleol | **0** | 0 |
| Ymddiriedolaethau GIG Cymru | **0** | 0 |
| Ymddiriedolaethau Iechyd Arbenigol Cymraeg | **0** | 0 |
| Nwyddau a gwasanaethau gan gyrff eraill y GIG | **0** | 0 |
| WHSSC/EASC | **0** | 0 |
| Awdurdodau Lleol | **0** | 0 |
| Prynu gofal iechyd gan gyrff nad ydynt yn rhan o'r GIG | **0** | 0 |
| Llywodraeth Cymru | **0** | 0 |
| Ymddiriedolaethau GIG arall | **0** | 0 |
| Costau Cyfarwyddwyr | **1,098** | 982 |
| Costau Gweithrediadau staff | **20,202** | 16,098 |
| Cost Staff Banc Cydweithredol | **0** | 0 |
| Cyflenwadau a gwasanaethau – clinigol | **112** | 82 |
| Cyflenwadau a gwasanaethau – cyffredinol | **2,916** | 2,773 |
| Gwasanaethau Ymgynghori | **268** | 152 |
| Sefydliad | **2,425** | 1,884 |
| Trafnidiaeth | **0** | 0 |
| Safleoedd | **5,349** | 5,211 |
| Contractwyr Allanol | **345** | 294 |
| Dibrisiant | **519** | 500 |
| Amorteiddiad | **0** | 0 |
| Amhariadau ar asedau sefydlog, a'u gwrthdroi (Eiddo, offer a chyfarpar) | **0** | 0 |
| Amhariadau ar asedau sefydlog, a'u gwrthdroi (Asedau anniriaethol) | **0** | 0 |
| Amhariadau ar asedau ariannol, a'u gwrthdroi | **0** | 0 |
| Amhariadau ar asedau anghyfredol i'w gwerthu, a'u gwrthdroi | **0** | 0 |
| Ffioedd Archwilio | **146** | 166 |
| Taliadau eraill i archwilwyr | **0** | 0 |
| Colledion, taliadau arbennig a dyledion na ellir eu hadennill | **170** | 47 |
| Ymchwil a Datblygu | **0** | 0 |
| Asedau Covid a brynwyd yn ganolog gan NWSSP yn rhad ac am ddim i sefydliadau GIG Cymru | **0** | 0 |
| Asedau Covid a brynwyd yn ganolog gan NWSSP yn rhad ac am ddim i sefydliadau arall | **0** | 0 |
| Costau gweithredu eraill | **202** | 90 |
| **Cyfanswm** | **33,752** | 28,279 |

**3.4 Colledion, taliadau arbennig a dyledion na ellir eu hadennill :**

**Costau gweithredu**

| | **2021-22** | 2020-21 |
|---|---|---|
| **Cynnydd/(gostyngiad) yn y ddarpariaeth ar gyfer taliadau yn y dyfodol:** | **£000** | £000 |
| Esgeuluster clinigol ; | | |
| Gofal eilaidd | **0** | 0 |
| Gofal sylfaenol | **0** | 0 |
| Gwneud yn iawn – Gofal eilaidd | **0** | 0 |
| Gwneud yn iawn – Gofal sylfaenol | **0** | 0 |
| Niwed Personol | **0** | 0 |
| Yr holl golledion a thaliadau arbennig eraill | **0** | 0 |
| Ffioedd cyfreithiol yr amddiffyniad a chostau gweinyddol eraill | **0** | 0 |

**CYFRIFON BLYNYDDOL AWDURDOD IECHYD ARBENNIG AAGIC (AAGIC AIA/SHA) 2021-22-22**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cynnydd/(gostyngiad) gros yn y ddarpariaeth ar gyfer taliadau yn y dyfodol | **0** | **0** | |
| Cyfraniad at Gronfa Risg Cymru | **0** | 0 | |
| Premiwm am drefniadau eraill ar gyfer yswiriant | **0** | 0 | |
| Dyledion nad oes modd eu hadennill | **170** | 47 | |
| **Llai:** incwm a dderbyniwyd/sy'n ddyledus gan Gronfa Risg Cymru | **0** | 0 | |
| **Cyfanswm** | | **47** | **170** |

Ar gyfer 2021/22 adolygwyd y categorïau o wariant a adroddwyd yn y cyfrifon blynyddol er mwyn cyd-fynd yn well â'r broses adrodd fewnol yn y SHA. Lle mae newidiadau wedi'u gwneud mae ffigurau 2020-21 wedi'u hailddatgan.

| | 2021-22 | 2020-21 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Niwed parhaol wedi'i gynnwys o fewn niwed personol £ | **0** | 0 |



## 4. Incwm Amrywiol

| | 2021-22 | 2020-21 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Byrddau Iechyd Lleol | **2** | 0 |
| Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru / Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys | **0** | 0 |
| Ymddiriedolaethau'r GIG | **0** | 152 |
| Awdurdodau Iechyd Arbenigol Cymraeg | **2** | 0 |
| Ymddiriedolaethau Sefydledig | **0** | 0 |
| Cyrff eraill yn GIG Lloegr | **0** | 0 |
| Cyrff GIG eraill | **0** | 0 |
| Awdurdodau Lleol | **0** | 0 |
| Llywodraeth Cymru | **112** | 0 |
| Cyrff a Gynhelir gan Lywodraeth Cymru | **0** | 0 |
| Ddim yn perthyn i'r GIG:: | | |
| Incwm taliadau presgripsiwn | **0** | 0 |
| Incwm ffioedd deintyddol | **0** | 0 |
| Incwm cleifion preifat | **0** | 0 |
| Cleifion tramor (ddim yn ddwyochrog) | **0** | 0 |
| Cynllun Adennill Costau Niwed | **0** | 0 |
| Incwm arall o weithgareddau | **0** | 0 |
| Gwasanaethau cludo cleifion | **0** | 0 |
| Addysg, hyfforddiant ac ymchwil | **412** | 380 |
| Cyfraniadau elusennol a chyfraniadau eraill tuag at wariant | **0** | 0 |
| Derbyn asedau Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a brynwyd yn ganolog oherwydd COVID | **0** | 0 |
| Derbyn asedau gan sefydliadau eraill a brynwyd yn ganolog oherwydd COVID | **0** | 0 |
| Derbyn asedau a gafwyd yn rhodd | **0** | 0 |
| Derbyn asedau a roddwyd gan y Llywodraeth | **0** | 0 |
| Cynlluniau cynhyrchu incwm nad ydynt yn ymwneud â gofal i gleifion | **0** | 0 |
| Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru | **0** | 0 |
| Incwm gohiriedig yn cael ei ryddhau i refeniw | **0** | 0 |
| Incwm rhent digwyddiadol o lesoedd cyllid | **0** | 0 |
| Incwm rhent o lesoedd gweithredol | **0** | 0 |
| Incwm arall | | |
| Cynllun yn Talu Ad-daliad Tybiannol | **0** | 0 |
| Arall | **0** | 0 |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **528** | 532 |

Mae incwm y Cynllun Adennill Costau Niwed yn amodol ar ddarpariaeth ar gyfer amhariad ar hawliadau niwed personol

| | **2021-22** | 2020-21 |
|---|---|---|
| | % | % |
| I adlewyrchu'r cyfraddau casglu a ddisgwylir, mae incwm Adennill Costau Niwed yn amodol ar ddarpariaeth ar gyfer amhariad o: | 23.76 | 22.43 |

**CYFRIFON BLYNYDDOL AWDURDOD IECHYD ARBENNIG AAGIC (AAGIC AIA/SHA) 2021-22**

## 5. Refeniw Buddsoddi

| | **2021-22** | 2020-21 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| **Refeniw rhent :** | | |
| Incwm o les cyllid PFI | | |
| Wedi'I gynllunio **0** 0 digwyddiadol **0** 0 | | |
| Refeniw arall o les cyllid | **0** | 0 |
| **Refeniw llog :** | | |
| Cyfrifon Banc | **0** | 0 |
| Benthyciadau a symiau derbyniadwy eraill | **0** | 0 |
| Asedau ariannol ag amhariad | **0** | 0 |
| Asedau ariannol eraill | **0** | 0 |
| **Cyfanswm** | **0** | 0 |

## 6. Enillion a cholledion eraill

| | **2021-22** | 2020-21 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Enillion/(colled) wrth waredu eiddo, offer a chyfarpar | **0** | 0 |
| Enillion/(colled) wrth waredu asedau anniriaethol | **0** | 0 |
| Enillion/(colled) wrth waredu asedau i'w gwerthu | **0** | 0 |
| Enillion/(colled) wrth waredu asedau ariannol | **0** | 0 |
| Newid yn sgil cyfnewid arian tramor | **0** | 0 |
| Newid yng ngwerth teg asedau ariannol ar sail gwerth teg drwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr | **0** | 0 |
| Newid yng ngwerth teg rhwymedigaethau ariannol ar sail gwerth teg drwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr | **0** | 0 |
| Ailgylchu enillion/(colled) mewn ecwiti wrth waredu asedau ariannol i'w gwerthu | **0** | 0 |
| **Cyfanswm** | **0** | 0 |

## 7. Costau Cyllid

| | **2021-22** | 2020-21 |
|---|---|---|

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **£000** | £000 |
| Llog ar fenthyciadau a gorddrafftiau | | | | | **0** | 0 |
| Llog ar rwymedigaethau o dan lesoedd cyllid | | | | | **0** | 0 |
| Llog ar rwymedigaethau o dan gontractau PFI | | | | | | |
| Prif gost cyllid | **0** | 0 | cost cyllid digwyddiadol | **0** | 0 | |
| Llog ar dalu dyled fasnachol yn hwyr | | | | | **0** | 0 |
| Costau llog arall | | | | | **0** | 0 |
| **Cyfanswm y costau llog** | | | | | **0** | 0 |
| Darpariaethau dad-ddirwyn y disgownt | | | | | **0** | 0 |
| Costau cyllid eraill | | | | | **0** | 0 |
| **Cyfanswm** | | | | | | **0** |
| | | | | | 0 | |



## 8. Lesoedd gweithredol

**AIA fel lesddeiliad**

Ar 31 Mawrth 2022, roedd gan AaGIC 1 cytundeb prydles gweithredu ar gyfer prydlesi eiddo, 2 drefniadau mewn perthynas ag offer a 0 mewn perthynas â cherbydau, gyda 0 safle, 0 offer ac 1 cerbyd ar brydles wedi dod i ben yn ystod y flwyddyn.

| **Taliadau sy'n cael eu cydnabod fel treuliau** | **2021-22** | 2020-21 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Taliadau les lleiaf | **372** | 380 |
| Rhenti digwyddiadol | **0** | 0 |
| Taliadau is-les | **0** | 0 |
| **Cyfanswm** | | |

| **Cyfanswm y taliadau les lleiaf yn y dyfodol** | | |
|---|---|---|
| **I'w talu** | **£000** | £000 |
| Ddim hwyrach na blwyddyn | **370** | 371 |
| Rhwng blwyddyn a phum mlynedd | **1,462** | 1,456 |
| Wedi 5 mlynedd | **410** | 773 |
| | **372** | 380 |
| **Cyfanswm** | **2,242** | 2,600 |

**AIA fel lesydd**

| **Refeniw rhent** | **£000** | £000 |
|---|---|---|
| Rhent | **0** | 0 |
| Rhenti digwyddiadol | **0** | 0 |
| **Cyfanswm rhent refeniw** | | **0** |
| | 0 | |

| **Cyfanswm y taliadau les lleiaf yn y dyfodol** | **I'w derbyn** | **£000** | £000 |
|---|---|---|---|
| Ddim hwyrach na blwyddyn | **0** | | 0 |
| Rhwng blwyddyn a phum mlynedd | **0** | | 0 |
| Wedi 5 mlynedd | **0** | | 0 |
| **Cyfanswm** | | | **0** |
| | | | 0 |



## 9. Buddion gweithwyr a nifer y staff

### 9.1 Costau gweithwyr

| | Staff Parhaol | Staff ar secondiad mewnol | Hyfforddai Staff Asiantaeth | Arbenigol (SLE) | Staff arall | **Cyfanswm 2021-22** | Cyfanswm 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | £000 |
| Cyflogau | **15,205** | **1,315** | **494** | **0** | **0** | **17,014** | 13,721 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | **1,543** | **0** | **0** | **0** | **0** | **1,543** | 1,194 |
| Cyfraniadau'r cyflogwr at Gynllun Pensiwn y GIG | **2,630** | **0** | **0** | **0** | **0** | **2,630** | 2,053 |
| Costau Pensiwn arall | **0** | | **0** | **0** | **0** | **10** | 5 |
| Buddion cyflogaeth eraill | **0** | | **0** | **0** | **0** | **0** | 0 |
| Buddion terfynu | **0** | | **0** | **0** | **0** | **0** | 0 |
| **Cyfanswm Costau Gweithwyr** | | | | **0** | **0** | | |
| Wedi'u priodoli i gyfalaf | | | | | | **0** | 0 |
| Wedi'u priodoli i refeniw | | | | | | **21,197** | 16,973 |
| | | | | | | **21,197** | 16,973 |
| Gwahaniaeth net yn y buddion sydd wedi cronni i weithwyr (mae gwyliau wedi cronni sydd heb eu defnyddio gan y staff wedi cael eu cynnwys uchod) | | | | | | **0** | 0 |
| Gwahaniaeth net yn y buddion sydd wedi cronni i weithwyr oherwydd COVID-19 | | | | | | **141** | 68 |

### 9.2 Nifer y gweithwyr ar gyfartaledd

| | Staff Parhaol | Staff ar secondiad mewnol | Hyfforddai Staff Asiantaeth | Arbenigol (SLE) | Staff arall | **Cyfanswm 2021-22** | Cyfanswm 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Rhif** | **Rhif** | **Rhif** | **Rhif** | **Rhif** | **Rhif** | Rhif |
| Aelodau gweinyddol, clerigol a bwrdd | **12** | **8** | 0 | | **0** | **254** | 199 |
| Meddygol a Deintyddol | **0** | **0** | 0 | | **0** | **46** | 45 |
| Nyrsio, bydwreigiaeth gofrestredig | **3** | **0** | 0 | | **0** | **9** | 5 |
| Staff Proffesiynol, Gwyddonol a Thechnegol | **0** | **0** | 0 | | **0** | **24** | 15 |
| Gwasanaethau Clinigol Ychwanegol | **0** | **0** | 0 | | **0** | **2** | 2 |
| Proffesiynau Perthynol i Iechyd | **1** | **0** | 0 | | **0** | **3** | 1 |
| Gwyddonwyr Gofal Iechyd | **0** | **0** | 0 | | **0** | **0** | 0 |
| Ystadau a Chynorthwyol | **0** | **0** | 0 | | **0** | **0** | 0 |
| Myfyrwyr | **0** | **0** | 0 | | **0** | **0** | 0 |
| **Cyfanswm** | | | **0** | | **0** | | |
| | **19,388** | **1,316** | **494** | | | **21,198** | 16,963 |

Mae Nodiadau 9.1 a 9.2 yn cynnwys y Prif Swyddog Nyrsio dros Gymru, sy'n gyflogedig gan AaGIC ond sydd wedi ei secondio i Lywodraeth Cymru o Awst 2021.

### 9.3 Ymddeoliadau oherwydd salwch

| | **2021-22** | 2020-21 |
|---|---|---|
| Rhif | 0 | 0 |
| Amcangyfrif o gostau pensiwn ychwanegol £ | 0 | 0 |

Mae'r amcangyfrif o gostau pensiwn ychwanegol yr ymddeoliadau hyn yn sgil salwch wedi cael eu cyfrifo ar sail gyfartalog, ac maen nhw'n cael eu talu gan Gynllun Pensiwn y GIG..

**9.4 Buddion i weithwyr**

Mae gan AIA AaGIC bedwar cynllun budd-daliadau cyflogeion. Mae tri chynllun aberthu cyflog ar gyfer talebau gofal plant, beiciau a cheir prydles. Cynigir cynllun benthyciadau a chynilion i weithwyr hefyd drwy ddarparwr lles ariannol allanol.



**9.5 Adrodd ar gynlluniau eraill sy'n digolledu – pecynnau gadael**

** note for typesetter – formatting is particularly impossible on the next three tables (highlighted in yellow), so I have included the correct translations in the table below;

| | |
|---|---|
| **Exit packages cost band (including any special payment element)** | Band cost pecynnau gadael (gan gynnwys unrhyw elfen taliad arbennig) |
| **No of compulsory redundancies** | Nifer y swyddi y bu'n rhaid eu dileu |
| **No of other departures** | Y nifer sydd wedi gadael am resymau eraill |
| Total number of exit packages | Cyfanswm nifer y pecynnau gadael |
| **No of departures where special payments have been made** | Y nifer sydd wedi gadael lle mae taliadau arbennig wedi cael eu gwneud |
| Total number of exit packages | Cyfanswm nifer y pecynnau gadael |
| Whole nos only | Rhifau cyfan yn unig |
| **Cost of compulsory redundancies** | Cost y swyddi y bu'n rhaid eu dileu |
| **cost of other departures** | Cost rheiny sydd wedi gadael am resymau eraill |
| Total cost of exit packages | Cyfanswm cost y pecynnau gadael |
| **cost of departures where special payments have been made** | Cost y rheiny sydd wedi gadael lle mae taliadau arbennig wedi cael eu gwneud |
| Total cost of exit | Cyfanswm Cost y |

| | |
|---|---|
| packages | pecynnau<br><br>gadael |
| **Exit costs paid in year of departure** | Costau gadael a dalwyd yn y flwyddyn gadael |
| **No paid in year** | Cyfanswm a dalwyd yn y flwyddyn |
| **Total cost paid in year** | Cyfanswm cost a dalwyd yn y flwyddyn |
| **Exit costs paid in year** | Costau gadael a dalwyd yn ystod y flwyddyn |

| | 2021-22 | 2021-22 | 2021-22 | 2021-22 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Exit packages cost band (including any special payment element)** | **No of compulsory redundancies** | **No of other departures** | **Total number of exit packages** | **No of departures where special payments have been made** | **Total number of exit packages** |
| | **Whole Nos only** | **Whole no only** | **Whole nos only** | **Whole nos only** | **Whole nos only** |
| Llai na £10,000 | **0** | **0** | **0** | **0** | 0 |
| £10,000 i £25,000 | **0** | **0** | **0** | **0** | 0 |
| £25,000 i £50,000 | **0** | **0** | **0** | **0** | 0 |
| £50,000 i £100,000 | **0** | **0** | **0** | **0** | 0 |
| £100,000 i £150,000 | **0** | **0** | **0** | **0** | 0 |
| £150,000 i £200,000 | **0** | **0** | **0** | **0** | 0 |
| Mwy na £200,000 | **0** | **0** | **0** | **0** | 0 |
| **Cyfanswm** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |

| | 2021-22 | 2021-22 | 2021-22 | 2021-22 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Exit packages cost band (including any special payment element)** | **Cost of compulsory redundancies** | **Cost of other departures** | **Cyfanswm cost of Wedi'u cynnwys yn exit packages** | **Cost of special element packages** | Cyfanswm cost of exit packages |
| | **£** | **£** | **£** | **£** | £ |
| less than £10,000 £10,000 | **0** | **0** | **0** | **0** | 0 |
| to £25,000 | **0** | **0** | **0** | **0** | 0 |
| £25,000 to £50,000 | **0** | **0** | **0** | **0** | 0 |
| £50,000 to £100,000 | **0** | **0** | **0** | **0** | 0 |
| £100,000 to £150,000 | **0** | **0** | **0** | **0** | 0 |
| £150,000 to £200,000 | **0** | **0** | **0** | **0** | 0 |
| more than £200,000 | **0** | **0** | **0** | **0** | 0 |
| **Cyfanswm** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |

| **Exit costs paid in year of departure** | **No paid in year** | total paid in year |
|---|---|---|
| | **2021-22** | 2020-21 |
| Exit costs paid in year | **£** | £ |
| | 0 | 0 |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **0** | 0 |

Mae'r costau dileu swydd wedi cael eu talu yn unol â darpariaethau Dileu Swyddi'r GIG, ac mae costau eraill sy'n ymwneud â gadael wedi cael eu talu yn unol â darpariaethau Cynllun y GIG ar gyfer Gadael Swydd yn Gynnar o Wirfodd (VERS). Pan fydd AaGIC wedi cytuno ar ymddeoliadau cynnar, AaGIC sy'n talu'r costau ychwanegol – nid cynllun pensiwn y GIG. Cynllun pensiynau'r GIG sy'n talu am gostau ymddeol oherwydd salwch, ac nid yw'r costau hynny wedi'u cynnwys yn y tabl.



---

**9.6 Datganiadau Taliadau Teg**

**9.6.1 Perthynas rhwng taliadau**

Mae'n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr/cyflogai â'r cyflog uchaf yn eu sefydliad a'r 25ain canradd, canolrif a 75fed canradd o gydnabyddiaeth ariannol gweithlu'r sefydliad. Blwyddyn ariannol 2021-22 yw'r datgeliadau blwyddyn gyntaf mewn perthynas â'r gymhareb cyflog o 25ain canradd ac mae angen cymhareb cyflog o 75fed canradd.

| | 2021-22 | 2021-22 | 2021-22 |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | |
| | Prif | | |
| **Cyfanswm tâl a buddiant** | **Weithredwr** | **Cyflogai** | **Cyfradd** |
| Cymhareb cyflog 25ain canradd Rhif | **158** | **32** | **4.88:1** |
| Cyflog canolrifol | **158** | **50** | **3.17:1** |
| 75fed cymhareb cyflog canradd | **158** | **96** | **1.64:1** |
| **Elfen tâl o gyfanswm tâl a buddiant** | | | |
| Cymhareb cyflog 25ain canradd Rhif | **158** | **32** | **4.88:1** |
| Cyflog canolrifol | **158** | **50** | **3.17:1** |
| 75fed cymhareb cyflog canradd | **158** | **96** | **1.64:1** |

**Taliad uchaf**

| **Cyfanswm tâl a buddiant** | **Cyfarwyddwr** | **Cyflogai** | **Cyfradd** |
|---|---|---|---|
| Cymhareb cyflog 25ain canradd Rhif | **168** | **32** | **5.18:1** |
| Cyflog canolrifol | **168** | **50** | **3.37:1** |
| 75fed cymhareb cyflog canradd | **168** | **96** | **1.74:1** |
| **Elfen dal o gyfanswm tâl a buddiant** | | | |
| Cymhareb cyflog 25ain canradd Rhif | **108** | **32** | **3.33:1** |
| Cyflog canolrifol | **108** | **50** | **2.16:1** |
| 75fed cymhareb cyflog canradd | **108** | **96** | **1.12:1** |

Yn 2021-22, derbyniodd 0 (2020-21, 0) o gyflogeion gydnabyddiaeth ariannol sy'n uwch na'r cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf.

Roedd y tâl ar gyfer yr holl staff yn amrywio o £14,939 i £168,592 (2020-21, £14,503 i £165,610).

Mae'r holl ystod staff yn cynnwys cyfarwyddwyr (gan gynnwys y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf) ac nid yw'n cynnwys buddion pensiwn pob cyflogai.

**Crynodeb o'r flwyddyn ariannol**

Rhwng 2020/21 a 2021/22 cynyddodd cymhareb tâl canolrifol y gweithlu a'r Prif Weithredwr o 2.99:1 i 3.17:1, ac i'r cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf o 3.2:1 i 3.37:1. Canolrif 2021/22 ar gyfer cyflog a budd-daliadau Cyfanswm yw £49,729 (£51,688 2020-21), sy'n cyfateb i ganol graddfa gyflog band 8a Agenda ar gyfer Newid. Yn ystod 2021/22 bu cynnydd net yn nifer y cyflogeion o 52.8 cyfwerth ag amser llawn. O'r Cyfanswm hwn, cyflogwyd 63.1 cyfwerth ag amser llawn o dan y canolrif, gyda gostyngiad net o 10.26 cyfwerth ag amser llawn o gyflogeion uwch na hynny.

Pennir cyfraddau cyflog ar gyfer holl gyflogeion AaGIC yn genedlaethol, yn bennaf drwy Delerau ac amodau gwasanaeth y Weithrediaeth a'r Uwch Gyflogau, y cytundeb Agenda ar gyfer Newid neu'r Telerau ac Amodau Gwasanaeth Meddygol a Deintyddol. Lle mae cyflogeion yn aros ar delerau Prifysgol Caerdydd yn dilyn TUPE i AaGIC, cafodd y rhain eu diwygio yn unol ag unrhyw ddyfarniadau cyflog Agenda ar gyfer Newid yn ystod y flwyddyn.

Ac eithrio'r newid yng nghyflogau'r Prif Weithredwr a'r cyfarwyddwyr â'r cyflog uchaf yn nodyn 9.6.2, nid yw ffigurau'r flwyddyn flaenorol wedi'u cofnodi yn y 'Datgeliadau Cyflog Teg'. Y rheswm am hyn yw nad yw'r wybodaeth a ddefnyddir ar gyfer cyfrifon 2020/21 yn darparu'r manylion angenrheidiol i gyfrifo'r nodyn diwygiedig. Nid yw'n ofynnol darparu ffigurau'r flwyddyn flaenorol ar gyfer y nodyn hwn yn unol â'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol.

**9.6.2 Newidiadau Canrannol** **2020-21**

**i**

| 2021-22 | |
|---|---|
| % Change from previous financial year in respect of Chief Executive | % |
| Salary and allowances | 3 |
| Performance pay and bonuses | 3 |
| % Change from previous financial year in respect of highest paid director | |
| Salary and allowances | 3 |
| Performance pay and bonuses | 2 |

| | |
|---|---|
| % Newid o'r flwyddyn ariannol flaenorol mewn perthynas â Phrif Weithredwr | % |
| Cyflog a lwfansau | 3 |
| Tâl perfformiad a bonysau | 3 |
| % Newid o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol mewn perthynas â'r cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf | |
| Cyflog a lwfansau | 3 |
| Tâl perfformiad a bonysau | 2 |

**CYFRIFON BLYNYDDOL AWDURDOD IECHYD ARBENNIG AAGIC (AAGIC AIA/SHA) 2021-22**

---

**9.7 Costau Pensiwn**

## COSTAU PENSIWN

Mae gweithwyr presennol a blaenorol yn dod o dan ddarpariaethau dau Gynllun Pensiwn y GIG. Mae manylion y buddion sy'n daladwy a rheolau'r Cynlluniau ar gael ar wefan 'NHS Pensions' yn www.nhsbsa.nhs.uk/pensions . Mae'r ddau gynllun yn gynlluniau â buddion wedi'u diffinio nad ydynt yn cael eu hariannu. Maen nhw'n cynnwys cyflogwyr y GIG, Practisau Meddygon Teulu a chyrff eraill, a ganiateir o dan gyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru ac yn Lloegr. Nid ydynt wedi cael eu cynllunio i gael eu rhedeg mewn ffordd a fyddai'n galluogi cyrff y GIG i ganfod eu cyfran nhw o asedau a rhwymedigaethau'r cynllun. Felly, rhoddir cyfrif am bob cynllun fel pe bai'n gynllun cyfraniadau wedi'u diffinio: tybir bod y gost i'r corff GIG gymryd rhan ym mhob cynllun yr un faint â'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun hwnnw ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu.

I sicrhau nad yw'r rhwymedigaethau buddion wedi'u diffinio a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol yn wahanol iawn i'r rheini a fyddai'n cael eu pennu ar y dyddiad adrodd gan brisiad ffurfiol gan actiwari, mae'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol yn mynnu ei bod yn rhaid cael cyfnod o bedair blynedd rhwng prisiadau ffurfiol, gydag asesiadau bras yn y blynyddoedd yn y canol. Dyma amlinelliad o'r rhain::

### a) Prisiad cyfrifyddu

Bydd rhwymedigaethau'r cynllun yn cael eu prisio'n flynyddol gan actiwari'r cynllun (Adran Actiwari'r Llywodraeth ar hyn o bryd) ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Bydd y prisiad yn defnyddio asesiad yr actiwari ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu blaenorol, ar y cyd â data ariannol ac aelodaeth cyfredol ar gyfer y cyfnod adrodd presennol, a derbynnir y prisiad fel un sy'n darparu ffigurau digon cadarn at ddibenion adrodd ariannol. Mae'r prisiad o rwymedigaethau'r cynllun ar 31 Mawrth 2021 yn seiliedig ar ddata prisio ar 31 Mawrth 2020, wedi'i ddiweddaru hyd at 31 Mawrth 2021 gyda data cyfrifyddu a data cyffredinol, cryno am yr aelodau. Mae'r fethodoleg a nodir yn IAS 19, dehongliadau perthnasol o'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol, a'r gyfradd ddisgownt a bennir gan Drysorlys EM wedi cael eu defnyddio hefyd wrth gynnal yr asesiad hwn.

Mae'r asesiad diweddaraf o rwymedigaethau'r cynllun wedi'i gynnwys yn adroddiad actiwari'r cynllun, sy'n rhan o Gyfrifon blynyddol Cynllun Pensiwn y GIG. Gellir gweld y cyfrifon hyn ar wefan 'NHS Pensions', ac maen nhw'n cael eu cyhoeddi'n flynyddol. Gellir cael copïau gan y Llyfrfa hefyd..

**b) Prisiad (ariannu) llawn yr actiwari**

Pwrpas y prisiad hwn yw asesu lefel y rhwymedigaethau o ran y buddion sy'n ddyledus o dan y cynlluniau (gan ystyried profiad diweddar y boblogaeth), ac argymell cyfraddau'r cyfraniadau i'w talu gan weithwyr a chyflogwyr.

Cafodd y prisiad diweddaraf gan actiwari ar gyfer Cynllun Pensiwn y GIG ei gynnal ar 31 Mawrth 2016. Roedd canlyniadau'r prisiad hwn wedi gosod cyfradd cyfraniadau'r cyflogwr ar 20.6% o gyflog pensiynadwy o fis Ebrill 2019 ymlaen. Disgwylid hefyd y byddai prisiad ariannu 2016 yn profi cost y Cynllun o'i gymharu â chap costau'r cyflogwr a osodwyd yn dilyn prisiad 2012. Ym mis Ionawr 2019, cyhoeddodd y Llywodraeth gyfnod o saib ar gyfer elfen rheoli costau prisiadau 2016, oherwydd yr ansicrwydd ynghylch y buddion i aelodau a achoswyd gan y dyfarniad gwahaniaethu mewn perthynas ag achos McCloud.

Cyhoeddodd HMT gyfarwyddiadau prisio dyddiedig 7 Hydref 2021 (gweler Cyfarwyddiadau Diwygio 2021) sy'n nodi manylion technegol sut y caiff costau cywiro eu cynnwys ym mhroses brisio 2016. Yn dilyn y cyfarwyddiadau hyn, mae actiwari'r cynllun wedi cwblhau elfen rheoli costau prisiad 2016 ar gyfer Cynllun Pensiwn y GIG, sy'n dod i'r casgliad nad oes angen unrhyw newidiadau i fudd-daliadau na chyfraniadau aelodau. Mae adroddiadau prisio 2016 i'w gweld ar wefan Pensiynau'r GIG yn https://www.nhsbsa.nhs.uk/nhs-pension-scheme-accounts-andvaluation-reports

**c) Yr Ymddiriedolaeth Cynilion Cyflogaeth Cenedlaethol (NEST)**

